


ystadegau ar gyfer cymru
statistics for wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Dangosyddion Coetiroedd i Gymru 2017-18

# Cynnwys

03 Cyflwyniad

04 Pennod 1: Coetiroedd a choed

10 Pennod 2: Arallgyfeirio coetiroedd

18 Pennod 3: Rheoli coetiroedd yn gynaliadwy

20 Pennod 4: System reoli

22 Pennod 5: Coetiroedd fferm

25 Pennod 6: Coetiroedd a choed trefol

30 Pennod 7: Cydbwysedd carbon

33 Pennod 8: Iechyd coed

37 Pennod 9: Manteision lleol coetiroedd

42 Pennod 10: Cynnwys cymunedau

45 Pennod 11: Gweithgareddau hamdden

49 Pennod 12: Hygyrchedd

53 Pennod 13: Mentrau lleol

56 Pennod 14: Defnydd o bren Cymru

61 Pennod 15: Gwerth y sector coedwigaeth

64 Pennod 16: Y galw am bren

68 Pennod 17: Iechyd busnesau yn y sector coedwigaeth

70 Pennod 18: Cynefinoedd coetiroedd a choed hynafol

74 Pennod 19: Rhywogaethau coetiroedd

78 Pennod 20: Cysylltiadau

80 Pennod 21: Coetiroedd yn rhoi pwysau ar ddŵr

82 Pennod 22: Coetiroedd fel ateb wrth reoli dŵr

84 Pennod 23: Treftadaeth a thirwedd

90 Crynodeb

96 Gwybodaeth allweddol am ansawdd

99 Geirfa

OGL © Hawlfraint y Goron 2019
WG36957
ISBN Digidol 978-1-83933-575-4
SFR 113/2019

# Cyflwyniad

Dyma'r seithfed adroddiad dangosyddion ers i strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer coetir a choed, Coetiroedd i Gymru, gael ei hadolygu ym mis Mawrth 2009.

Nod y 23 dangosydd yw monitro cynnydd tuag at gyflawni'r 20 canlyniad lefel uchel a ddisgrifir yn Coetiroedd i Gymru, ac maent yn cyfateb i'r rhestr a geir ar dudalennau 54 a 55 yn y ddogfen strategaeth. Nod y 6 dangosydd cyntaf yw monitro newidiadau yn arwynebedd a natur coetiroedd a choed Cymru, a diben y 17 arall yw monitro'r nwyddau a'r gwasanaethau y gall coetiroedd a choed eu darparu: mae'r rhan fwyaf yn cynnwys nifer o fesurau. Mae nifer o'r dangosyddion yn perthyn i fwy nag un o'r 20 canlyniad lefel uchel: dangosir hyn mewn tabl ar ddiwedd yr adroddiad. Mae rhai o'r dangosyddion yn dangos cynnydd yn achos Ystad Coetir Llywodraeth Cymru a choetiroedd yn gyffredinol.

Dangosir y ffynonellau data ar gyfer y mesurau, yn ogystal â'r duedd ddymunol ac amlwg ar gyfer pob dangosydd, gyda gwybodaeth llinell sylfaen lle mae ar gael. Er mwyn rhoi cyd-destun i'r data, mae'r sylwadau sy'n cyd-fynd â nhw yn nodi perthnasedd pob dangosydd, yn ogystal â'r pwyntiau allweddol amdano a nodiadau yn ei gylch. Gan fod y gwaith hwn yn parhau i symud ymlaen mae nifer o ddangosyddion wrthi'n cael eu datblygu. Gan fod rhai agweddau ar y coetiroedd a'r coed yn newid yn araf, mae rhai dangosyddion yn cael eu diweddaru bob dwy, tair neu bum mlynedd yn hytrach na phob blwyddyn, sy'n cyd-fynd â rhaglen adrodd y Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol ac amserlen arolygon Cyfoeth Naturiol Cymru.

Gan adeiladu ar adroddiad cynnydd 2001–2005, a gyhoeddwyd yn 2006, ac sy'n seiliedig ar y Coetiroedd i Gymru gwreiddiol a gyhoeddwyd yn 2001, aed ati, lle bo modd, i ddatblygu dangosyddion a fydd yn golygu y bydd modd dilyn tueddiadau am oes y strategaeth 50 mlynedd ar ei hyd.



# Pennod 1:
# Coetiroedd a Choed


## Pwyntiau allweddol

- Rhwng 2001 a 2010, arhosodd arwynebedd amcangyfrifedig coetiroedd Cymru yn weddol gyson rhwng 289,000 hectar a 284,000 hectar, er bod cynnydd yng nghyfran y llydanddail o gymharu â  choetiroedd coed conwydd. Yn ôl y data diweddaraf yn 2018 amcangyfrifir bod coetiroedd Cymru yn gorchuddio 308,000 hectar. Mae hyn yn uwch na'r ffigur yn 2010. Mae llawer o'r cynnydd hwn, yn enwedig y cynnydd mewn coetiroedd amcangyfrifedig rhwng 2010 a 2011, i'w briodoli i dechnegau mesur gwell yn hytrach na chynnydd yn arwynebedd y coetiroedd.
- Ers 2001, mae arwynebedd amcangyfrifedig ein coetiroedd conwydd yng Nghymru wedi lleihau 17,000 hectar, tra bo arwynebedd amcangyfrifedig ein coetiroedd llydanddail wedi cynyddu 36,000 hectar.
- Mae'r cyfraddau plannu coed newydd wedi gostwng ers 2014, a rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018 cafodd 244 hectar eu plannu (118 hectar o goed llydanddail a 126 hectar o goed conwydd.

## Data

### a) Arwynebedd Coetir

### Siart 1: Arwynebedd y coetiroedd yng Nghymru yn ôl y math o goetir





Ffynhonnell: Newidiodd methodoleg Ystadegau Coedwigaeth rhwng 2010 a 2011

Ers 2001, mae arwynebedd amcangyfrifedig ein coetiroedd conwydd yng Nghymru wedi lleihau 17,000 hectar, tra bo arwynebedd amcangyfrifedig ein coetiroedd llydanddail wedi cynyddu 36,000 hectar. Fodd bynnag roedd amcangyfrif y gyfran o gonwydd a llydanddail wedi aros oddeutu yr un peth ers 2012.

## b) Plannu coetiroedd newydd

Cynyddodd y gyfradd plannu coed newydd rhwng 2009 a 2014, ond rhwng 2014 a 2018 gostyngodd nifer y coed newydd a gafodd eu plannu. Rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018 cafodd 126 hectar o goed conwydd eu plannu, a dim ond 118 o goed llydanddail.

## Siart 2:
## Arwynebedd y coetir newydd a blennir y flwyddyn yn ôl math o goetir




Ffynhonnell: Ystadegau Coedwigaeth

## c) Y gorchudd coed y tu allan i goetiroedd

Mae'r tablau yn y bennod hon yn dod o gyhoeddiad y Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol "Tree cover outside woodland in Great Britain" (2017). Mae'r cyhoeddiad yn rhoi gwybodaeth am yr hectarau o goetir a hyd nodweddion llinellol, megis perthi.

## Tabl 1:
## Y gorchudd coed y tu allan i goetiroedd, Cymru a Phrydain Fawr, fesul '000 hectar, 2016

| Rhanbarth | Cyfanswm coetir y Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol | Gorchudd coed y tu allan i goetiroedd | Coedwigoedd Bach (b) | Grwpiau o goed (c) | Coed unigol | Cyfanswm arwynebedd y gorchudd coetir a choed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Prydain Fawr | 3074.6 | 742.3 | 390.2 | 255.4 | 97.1 | 3817.4 |
| Cymru | 309.3 | 92.7 | 49.2 | 33.4 | 10.1 | 401.9 |

Ffynhonnell: Y Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol, Tree cover outside woodland in Great Britain
(a) Coetir y Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol – coetiroedd dros 0.5 hectar ac o leiaf 20m o led
(b) Coedwigoedd bach – nodweddion coedwig dros 0.1 hectar ac o dan 0.5 hectar, neu o dan 20m o led nad ydynt yn gymwys i fod yn goetir y Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol
(c) Grwpiau o goed – clystyrau o goed o dan 0.1 hectar
(d) Coed unigol – wedi'u categoreiddio ymhellach fel coed perthi, coed ffiniau eraill a choed ar dir agored

### Tabl 1

Mae Tabl 1 yn dangos yng Nghymru; fod tua 23 y cant o'r gorchudd coed y tu allan i goetiroedd y Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol, mae hyn yn ddau bwynt canran yn uwch na'r ffigur cyfatebol ar gyfer Prydain Fawr.

O'r 92,700 hectar o'r gorchudd coed y tu allan i goetiroedd y Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol, mae dros 50 y cant yn goetiroedd bach.

### Tabl 2

Mae Tabl 2 yn dangos, o'r coetiroedd bach, mae 37,500 hectar yn weledig; mae 19,500 ohonynt yn llinellol a'r 18,000 sydd ar ôl yn anllinellol. Yn yr amgylchedd trefol yng Nghymru, mae arwynebedd y coetiroedd bach sy'n llinellol yn fwy nag arwynebedd y coetir anllinellol.

Wrth edrych ar grwpiau o goed, mae tua dau draean o'r hectarau yn anllinellol, gydag ychydig mwy o'r hectarau yn yr amgylchedd trefol. I'r gwrthwyneb, mae nifer uwch o hectarau o'r grwpiau o'r coed hyn sy'n llinellol yn yr amgylchedd gwledig.

## Tabl 2:
## Y gorchudd coed y tu allan i goetiroedd, llinellol ac anllinellol, yng Nghymru, fesul '000 hectar, 2016

| Y gorchudd coed y tu allan i goetiroedd y Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol | Llinellol | | | Anllinellol | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwledig | Trefol | Cyfanswm | Gwledig | Trefol | Cyfanswm |
| Coedwigoedd Bach | 19.5 | 4.4 | 23.8 | 18.0 | 7.3 | 25.3 |
| Grwpiau o goed | 6.3 | 4.8 | 11.1 | 8.0 | 10.7 | 18.6 |

Ffynhonnell: Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol, Tree cover outside woodland in Great Britain

Mae tua 3,600 o hectarau o berthi ac mae 2,900 hectar yn wledig a 700 hectar yn drefol. Mae Tabl 3 yn dangos cyfanswm hyd y perthi yng Nghymru o gymharu â Phrydain Fawr. Mae'r rhaniad rhwng gwledig a threfol bron yn union yr un peth yng Nghymru ag y mae ym Mhrydain Fawr yn ei chyfanrwydd.

## Tabl 3:
## Cyfanswm hyd y perthi, Cymru a Phrydain Fawr, fesul '000 hectar, 2016

| Rhanbarth | Gwledig | Trefol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Prydain Fawr | 409.1 | 43.1 | 452.2 |
| Cymru | 69.6 | 5.9 | 75.5 |

Ffynhonnell: Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol, Tree cover outside woodland in Great Britain

## Perthnasedd

Mae'r dangosydd hwn yn rhoi gwybodaeth am lefel gyffredinol coetiroedd a choed yng Nghymru. Un o ganlyniadau dymunol y strategaeth yw bod coetiroedd yng Nghymru yn cynyddu, yn enwedig trwy greu coetiroedd brodorol newydd a choetiroedd cymysg newydd.

Mae hyn yn rhannol er mwyn sicrhau bod potensial cynhyrchu cyffredinol coetiroedd Cymru yn cael ei gynnal.

Mae angen mwy o goetiroedd hefyd i ddarparu'r ystod lawn o wasanaethau ecosystem a manteision cymunedol sy'n cael eu rhagweld yn y strategaeth a sicrhau cyfraniad coetiroedd at yr amcanion llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a darparu yn erbyn y fframwaith ar gyfer rheoli adnoddau naturiol sydd wedi ei sefydlu yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Un o ganlyniadau dymunol eraill y strategaeth yw bod amddiffyniad gwell ar gyfer coed unigol, a bod mwy o goed unigol yn cael eu plannu i gydnabod eu cyfraniad at wasanaethau ecosystem a'n hansawdd bywyd.

## Nodiadau

Cyhoeddwyd canlyniadau cychwynnol Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol 2010 ar gyfer Cymru ym mis Mawrth 2011, ac roedd yn amcangyfrif bod arwynebedd y coetiroedd yng Nghymru tua 20,000 hectar yn fwy na'r amcangyfrif yn 2010 (gweler Siart 1). Mae'r rhan fwyaf o'r gwahaniaeth yn deillio o welliannau technolegol rhwng y Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed (1995-1999) a Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol 2010, yn hytrach nag oherwydd achosion heb eu cofnodi o blannu coetiroedd neu ailgoedwigo naturiol.

O ran coed y tu allan i goetiroedd, mae technegau gwell ar gyfer cynnal arolygon maes ac arsylwi'r ddaear wedi galluogi Llywodraeth Cymru i ddarparu'r amcangyfrif mwyaf cywir hyd yn hyd, sy'n cynnwys: coetiroedd bach, grwpiau o goed a choed unigol yng Nghymru. Mae hyn yn dangos bod gan Gymru ragor o goed mewn coedwigoedd bach, perthi a grwpiau nag yr amcangyfrifwyd yn flaenorol yn 1998. Mae'r rhain yn cyfrif am 4.5% o arwynebedd tir Cymru, sydd, wedi'u cyfuno â choetir gwirioneddol (14.9%) yn golygu bod coed yng Nghymru yn gorchuddio cyfanswm o 19.4% o'r tir. Nid yw hyn yn golygu bod nifer gwirioneddol y coed wedi cynyddu, dim ond bod technegau monitro gwell yn golygu ein bod yn gallu canfod coed a pherthi nad oeddem yn gallu eu canfod yn y gorffennol. Mae'n bosibl bod y cynnydd cyffredinol yn cuddio dirywiad neu gynnydd gwirioneddol mewn rhai dosbarthiadau.

Bydd yr asesiad nesaf yn 2022 yn galluogi asesiad uniongyrchol a chymharol o dueddiadau dros gyfnod o amser.



# Pennod 2: Arallgyfeirio coetiroedd

## Pwyntiau allweddol

- Ym 1997, clystyrau o rywogaethau sengl oedd nodwedd amlycaf coetiroedd coed conwydd.
- Rhwng 1991 a 1997, plannwyd mwy o byrwydd Sitca nag unrhyw goed conwydd eraill (63% o'r holl goed conwydd a blannwyd), ac roedd 80% o'r ardaloedd a blannwyd yn cynnwys pedair prif rywogaeth – pyrwydd Sitca, coed llarwydd Siapan/hybrid, coed pyrwydd Norwy a choed pinwydd Douglas.


## Data

### a) Amrywiaeth coetiroedd ar raddfa dalgylch

Mae'r adran hon yn cynnwys 3 dalgylch yng Nghymru: Ardal Basn yr Afon Dyfrdwy; Ardal Basn yr Afon Hafren; ac Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru.

## Ardal Basn Afon Dyfrdwy

## Map 1: Ardal Basn Afon Dyfrdwy





Ffynhonnell: Amcangyfrifon y Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol ar gyfer coetiroedd mewn dalgylchoedd yng Nghymru

Mae ffigwr 1 yn dangos mai yn Ardal Basn Afon Dyfrdwy, y coed mwyaf cyffredin yn y coetiroedd yw'r pyrwydd Sitka (27%), a'r coed mwyaf cyffredin nesaf yn yr ardal hon yw coed Bedw (12%), a'r trydydd mwyaf cyffredin yw coed y Ddraenen Wen (10%).

## Siart 3:


## Prif rywogaethau coed yn ôl yr ardal stocio ar 31 Mawrth 31 2012 – Ardal Basn Afon Dyfrdwy




Ffynhonell: Amcangyfrifon y Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol ar gyfer coetiroedd mewn dalgylchoedd yng Nghymru

## Ardal Basn Afon Hafren


## Map 2: Ardal Basn Afon Hafren




Ffynhonell: Amcangyfrifon y Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol ar gyfer coetiroedd mewn dalgylchoedd yng Nghymru


Mae Ffigwr 2 yn dangos mai yn Ardal Basn Afon Hafren, y coed mwyaf cyffredin yn y coetiroedd yw'r pyrwydd Sitka (17%), y coed mwyaf cyffredin nesaf yw coed Derw (11%), a'r trydydd mwyaf cyffredin yw y Ddraenen Wen (10%).

## Siart 4:
## Y prif rywogaethau coed yn ôl ardal stocio ar 31 Mawrth 2012 – Ardal Basn Afon Hafren




Ffynhonnell: Amcangyfrifon y Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol ar gyfer coetiroedd mewn dalgylchoedd yng Nghymru


## Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru
## Map 3: Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru




Ffynhonnell: Amcangyfrifon y Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol ar gyfer coetiroedd mewn dalgylchoedd yng Nghymru

Mae ffigwr 3 yn dangos mai'r coed mwyaf cyffredin yng nghoetiroedd Ardal Basn Afon Hafren yw'r pyrwydd Sitka (30%), y coed mwyaf cyffredin nesaf yn yr ardal hon yw coed Derw (11%), a'r trydydd coed mwyaf cyffredin yw coed Ynn (8%).

## Siart 5:
## Prif rywogaethau coed yn ôl ardal stocio ar 31 Mawrth 2012 – Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru





Ffynhonnell: Amcangyfrifon y Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol ar gyfer coetiroedd mewn dalgylchoedd yng Nghymru

Mae'n ymddangos bod gan y dair dalgylch amrywiaeth o goed; fodd bynnag, mae gan pob un ohonynt glystyrau mawr o rywogaethau penodol o goed megis pyrwydd Sitka, coed Ynn a Bedw.

## b) Mynegai amrywiaeth cynefinoedd coetiroedd ar raddfa 1 hectar

Mae'r mynegai hwn yn gwahaniaethu rhwng rhywogaethau gwahanol o goed. Mae sgôr o 0.0 yn golygu mai un rhywogaeth yn unig sy'n bresennol yn yr hectar sgwâr. Ar hyn o bryd, dim ond data llinell sylfaen sydd ar gael ar gyfer 1997, a hynny o'r Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed, ond bydd y data yn cael eu diweddaru dros y pum mlynedd nesaf, ar ôl i ganlyniadau'r Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol gael eu cyhoeddi.

Siart 6:
Amrywiaeth coetiroedd ar raddfa 1 hectar





Ffynhonnell: Dadansoddiad o ddata arolwg maes o'r Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed 1997

## c) Cymysgedd cynefin: Nifer y rhywogaethau coed sy'n bresennol ym mhob chwarter hectar

Fel sy'n wir am y dangosydd blaenorol, mae'r data sydd ar gael yn darparu llinell sylfaen ar gyfer 1997, a byddant yn cael eu diweddaru drwy ddefnyddio data o'r Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol.

## Siart 7:
## Nifer y rhywogaethau coed fesul 0.25 hectar





Ffynhonnell: Dadansoddiad o ddata arolwg maes o'r Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed 1997

### d) Plannu

Mae'r graff canlynol yn dangos y gwahanol rywogaethau o goed conwydd a blannwyd yng Nghymru mewn ardaloedd Categori 1 Coedwig Uchel yn ôl y flwyddyn blannu. Dyma'r lleiniau sy'n gallu, neu a allai, gynhyrchu pren o faint ac ansawdd sy'n addas ar gyfer boncyffion. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys ailstocio a choed newydd a gaiff eu plannu.

## Siart 8:
## Rhywogaethau Categori 1 Coedwig Conwydd Uchel




Ffynhonnell: Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed

Wrth blannu coed conwydd rhwng 1991 a 1997, y pyrwydd Sitka a blannwyd fwyaf (63% o bob ardal gonwydd a blannwyd, er bod hyn yn llai o 14% na'r cyfnod cyn hyn), ac mae 80% o bob ardal a blannwyd o bedair rywogaeth benodol – pyrwydd Sitka, llarwydd Siapan/croesiad, pyrwydd Norwy a phinwydd Douglas.

Er y dylid nodi bod yr ardal o rywogaethau categori 1 coedwig conwydd uchel wedi gostwng o'r cyfnod a ddaw i ben yn 1970 o gymharu â'r cyfnod a ddaw i ben yn 1997.

### e) Sylfaen genetig

Mae angen gwneud mwy o waith er mwyn datblygu, os oes modd, dangosydd sy'n gallu monitro amrywiaeth genetig coed sy'n cael eu plannu yng Nghymru.

## Perthnasedd

Mae'r dangosydd hwn yn monitro amrywiaeth coetiroedd yng Nghymru ar raddfeydd gwahanol, ac mae'n ystyried yr amrywiaeth o rywogaethau coed sy'n cael eu plannu.

Un o ganlyniadau dymunol y strategaeth yw arallgyfeirio coetiroedd yn briodol, yn arbennig coetiroedd anfrodorol, ar amrywiaeth o raddfeydd, o ran strwythur oedran, rhywogaethau coed a sylfaen genetig. Dyma'r tueddiadau dymunol:

- Cynyddu amrywiaeth y mathau o goetiroedd ar raddfa dalgylch a choetir
- Cynyddu arwynebedd coetiroedd anfrodorol gyda chymysgedd cynefin
- Plannu yn cael ei ddominyddu llai gan rywogaethau sengl
- Plannu sylfaen genetig ehangach.

### Nodiadau

- Disgwylir diweddariadau ar gyfer a), b) ac c) yn ystod y cylch hwn o'r Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol (2011-2016).



# Pennod 3:
# Rheoli coetiroedd yn gynaliadwy

## Pwyntiau allweddol

- Mae cyfanswm arwynebedd ardystiedig y coetiroedd nad ydynt yn rhan o Ystad Llywodraeth Cymru wedi cynyddu o 14% i bron 20% o'r arwynebedd ardystiedig cyfan rhwng 2001 a 2017.


## Tabl 4:
## Amcangyfrif o Arwynebedd y coetiroedd yng Nghymru a reolir yn unol â Safon Coedwigaeth y DU (mil ha)

| Blwyddyn hyd at 31 Mawrth | 2001 | '02 | '03 | '04 | '05 | '06 | '07 | '08 | '09 | '10 | '11 | '12 | '13 | '14 | '15 | '16 | '17 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Arwynebedd ardystiedig ar YGLC | 115 | 113 | 110 | 110 | 109 | 108 | 107 | 106 | 105 | 105 | 114 | 117 | 117 | 117 | 117 | 117 | 117 |
| Arwynebedd ardystiedig nad yw ar YGLC | 8 | 8 | 10 | 11 | 15 | 16 | 17 | 15 | 19 | 18 | 19 | 21 | 22 | 24 | 24 | 28 | 28 |

Ffynonellau: Cronfeydd data Ystadegau Coedwigaeth, Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru ar goetiroedd mewn cynlluniau grant

Gan ei bod yn amhosibl gwybod a yw arwynebeddau mewn cynlluniau grant yn ardystiedig hefyd, ni ellir bod yn sicr am gyfanswm y coetiroedd a reolir yn unol â Safon Coedwigaeth y DU, ond dangosir yr amcangyfrif isaf ac uchaf isod.

## Siart 9:
## Amcangyfrif arwynebedd y coetiroedd a reolir yn unol â Safon Coedwigaeth y DU




Ffynhonnell: Ystadegau Coedwigaeth, Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru

## Perthnasedd

Mae'r dangosydd hwn yn monitro arwynebedd y coetiroedd yng Nghymru a reolir yn unol â Safon Coedwigaeth y DU (UKFS), gan gynnwys arwynebedd y coetiroedd sydd wedi'u hardystio i safon yr FSC neu'r PEFC. Un o amcanion y strategaeth yw sicrhau bod mwy o goetiroedd, gan gynnwys llawer o goetiroedd bach a thameidiog, yn cael eu rheoli yn unol â Safon Coedwigaeth y DU. Y nod, yn y pen draw, yw gweld mwy o goetiroedd Cymru yn ennill ardystiad Safon Sicrwydd Coetiroedd y DU.




# Pennod 4:
# System reoli

## Pwyntiau allweddol

- Ar y cyfan, disgynnodd arwynebedd Ystad Goed Llywodraeth Cymru y gwyddys ei bod yn cael ei rheoli trwy lwyrgwympo o dan 50 y cant rhwng 2013 a 2015 ond bu cynnydd ar ôl 2016. Nid yw llwyrgwympo wedi bod yn ddull rheoli ar fwy na 53% o Ystad Goed LlC ers 2006.

## Data:
## Siart 10: Amcangyfrif arwynebedd Ystad Goed Llywodraeth Cymru a reolir drwy lwyrgwympo a heb lwyrgywmpo (a)




Yn 2009, newidiwyd y ffordd y cyfrifir arwynebedd coetiroedd a reolir heb gwympo coed.

(a) Mae dulliau eraill yn cynnwys Cysgodfeydd Coed Unffurf, Brigdocio coed wedi'u Bondocio, Coed Tymor Hlr, Cronfa Naturiol, Coed Hirgyff wedi'u Bondocio, Ymyrraeth Leiaf, Dewis Coed Unigol, Grŵp o Goed Cysgodi, Cysgodfeydd Coed Afreolaidd (cyffredinol), Lleiniau o Goed Cysgodi, Dewis grwpiau, Llwyrgwympo â choed had, Tir Arall/Agored a Choedlannau.
Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Ystadegau Coedwigaeth

## Perthnasedd

Un o ganlyniadau dymunol y strategaeth yw bod coetiroedd yn cael eu haddasu'n well i ddarparu ystod lawn o fanteision, ac er mwyn sicrhau'r canlyniad hwn, un o'r nodau yw bod cwympo coed yn cael ei osgoi lle byddai systemau rheoli eraill yn gwneud cyfraniad gwell at wasanaethau ecosystem. Mae'r dangosydd hwn yn monitro arwynebedd y coetiroedd yng Nghymru a reolir heb gwympo coed. Dyma'r tueddiadau dymunol:

a) Gostyngiad yn yr arwynebedd a reolir drwy gwympo coed

b) Cynnydd yn yr arwynebedd sy'n cael ei reoli'n weithredol ar gyfer pren gan ddefnyddio systemau eraill.

## Nodiadau

Amcangyfrifwyd arwynebeddau dulliau rheoli coed (siart 10) drwy ddefnyddio data grantiau CNC a chronfa ddata'r GIS. Yn y flwyddyn ddiwethaf, y rheswm pennaf a roddir dros y lleihad yn arwynebedd y coetir a reolir heb lwyrgwympo a'r cynnydd cyfatebol yn yr arwynebedd lle na wyddys y dull rheoli yw am nad oes grant rheoli coetiroedd ar gael o dan Gynllun Datblygu Gwledig Cymunedau Gwledig.



# Pennod 5:
# Coetiroedd Fferm


## Pwyntiau allweddol

- Yn gyffredinol, ers 2014, gwelwyd cwymp mawr yn arwynebedd y coetiroedd fferm sydd mewn cynllun grant.

### Data:

### a) Arwynebedd coetiroedd fferm sydd mewn cynllun grant.

## Siart 11: Arwynebedd Coetiroedd Fferm sy'n derbyn Grantiau LIC





Ffynhonnell: Cronfeydd data Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru

### b) Cyfran y ffermwyr sy'n cynaeafu coed tân neu bren

Daw'r data hyn o dair ffynhonnell wahanol: daw'r data ar gyfer 2009 o arolwg Comisiwn Coedwigaeth Cymru (CCC) o ffermwyr sydd â choetir ar eu ffermydd, a daw'r data ar gyfer 2012 o'r Astudiaeth Adnoddau Coedwigaeth a gwblhawyd gan MWMAC ar ran CCC; a daw data 2015 o Arolwg Amaethyddol a Garddwriaethol Cymru.

O ganlyniad, mae'n bosibl na fydd modd cymharu'r data yn uniongyrchol oherwydd bod cwestiynau'r arolygon, a'r dull o'u cynnal, yn wahanol.

## Siart 12: Cynaeafu coetiroedd fferm




Ffynhonnell: Arolwg Comisiwn Coedwigaeth Cymru o Ffermwyr, Astudiaeth Adnoddau Coedwigaeth

Mae Siart 12 yn dangos yn 2015 roedd rhyw 61% o'r coetir fferm heb ei gynaeafu a bod rhyw 31% o'r coetir fferm wedi'i gynaeafu.

## Perthnasedd

Mae tua 78,000 hectar o goetiroedd ar ffermydd yng Nghymru (Ffynhonnell: amcangyfrifon o Arolwg Amaethyddiaeth Cymru, Mehefin 2015) – tua chwarter o'r holl goetiroedd yng Nghymru. Un o nodau'r strategaeth yw bod ffermwyr yn cael cymorth gwell i reoli eu coetiroedd a choed er mwyn darparu gwasanaethau ecosystem ac amrywio eu busnesau. Mae'r dangosydd hwn yn monitro'r coetir fferm sydd mewn cynllun grantiau a chyfran y ffermwyr sy'n rheoli eu coetiroedd ar gyfer cynnyrch pren, gan gynnwys coed tân. Dyma'r tueddiadau dymunol:

a) cynyddu arwynebedd coetir fferm sydd mewn cynllun grant

b) cynyddu cyfran y ffermwyr sy'n cynaeafu coed tân a phren o'u coetiroedd, neu sy'n creu incwm o goetiroedd mewn ffyrdd eraill.

## Nodiadau

Mae cyfanswm y coetiroedd fferm sy'n rhan o Tir Gofal wedi'i amcangyfrif, ac mae'n bosibl na ellir cymharu methodoleg 2011 a 2012.



# Pennod 6:
# Coetiroedd a Choed Trefol

## Pwyntiau allweddol

- Yn 2017, roedd brigdwf dros 41,900 hectar o ardaloedd trefol Cymru, naill ai o fewn coetiroedd neu y tu allan i goetiroedd.
- Mae'r cynnydd ymddangosiadol mewn brigdwf rhwng 2006 and 2009 i'w briodoli'n bennaf i'r ffaith bod safon ffotograffiaeth yn 2009 yn fwy eglur, sy'n golygu bod modd adnabod coetiroedd a choed yn well.
- Yn gyffredinol, ceir lefelau uwch o frigdwf yn y Cymoedd a lefelau is mewn trefi arfordirol.
- Roedd bron naw o bob deg person (92%) yn gallu enwi o leiaf un o fanteision coed trefol, ac roedd dros eu hanner (56%) yn gallu enwi o leiaf un anfantais.

## Data:

### a) Coetiroedd Trefol:

Mae Tabl 4 yn dangos yr ardal o goetir a brigdwr trefol yng Nghymru o gymharu â Phrydain Fawr yn gyffredinol. Mae cyfanswm canran yr ardal o goetir a brigdwf mewn ardaloedd trefol yng Nghymru ddwywaith cymaint â Phrydain Fawr yn gyffredinol.

### Tabl 4:
### Ardaloedd trefol o goetir a brigdwf y tu allan i goetiroedd (2017)

| Rhanbarth | Cyfanswm arwynebedd trefol | Coetir RhGG mewn ardaloedd trefol | Brigdwf y tu allan i goetiroedd mewn ardaloedd trefol | Cyfanswm yr arwynebedd o goetiroedd a brigdwf mewn ardaloedd trefol |
|---|---|---|---|---|
| | (000 ha) | (000 ha) | (000 ha) | (000 ha) |
| Prydain Fawr | 1,736.2 | 90.2 | 196.3 | 286.5 |
| Cymru | 116.6 | 9.1 | 32.8 | 41.9 |

Ffynhonnell: Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol, Brigdwf y tu allan i goetiroedd ym Mhrydain Fawr

### b) Brigdwf Trefol:

Nid yw'r ffigurau hyn wedi eu diweddaru yn y rhifyn hwn.

Mae'r data hyn yn ystyried yr ardaloedd a ddisgrifir fel rhai 'trefol' yn adroddiad 'Rhestr Coed Trefol Cymru' CNC. Dangosir brigdwf cyffredinol mewn trefi yng Nghymru isod.

### Tabl 5:
### Brigdwf mewn ardaloedd trefol


| Blwyddyn | Ardal Drefol (hectar) | Coetir* (hectar) | Brigdwf* % |
|---|---|---|---|
| 2006 | 84,331 | 12,568 | 15 |
| 2009 | 86,331 | 14,636 | 17 |
| 2013 | 86,331 | 14,097 | 16 |

Ffynhonnell: Gorchudd coed yn nhrefi a dinasoedd Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru 2016).
*Mae datganiadau blaenorol wedi cyfeirio at Goetir yn hytrach na Brigdwf. Canrannau wedi eu talgrynnu.

Mae'r cynnydd o 2,068 mewn brigdwf rhwng 2006 a 2009 yn debygol o fod oherwydd bod gwell manylion yn y ffotograffau yn hytrach na bod mwy o frigdwf yn ystod y cyfnod hwn. Mae cymariaethau rhwng 2009 a 2013 gan ddefnyddio yr un math o ffotograffiaeth yn dangos bod gostyngiad yn y brigdwf o 539 hectar ledled Cymru.

Dangosir lefelau brigdwf ar gyfer ardaloedd trefol Awdurdodau Lleol yng Nghymru isod.

## Siart 13:
## Arwynebedd brigdwf fesul awdurdod lleol yng Nghymru (2016)




Ffynhonnell: Gorchudd coed yn nhrefi a dinasoedd Cymru (2016)

Gan ddefnyddio data a gasglwyd o'r prosiectau Eco I-Tree yng Nghymru, mae amcangyfrifon wedi'u creu ynghylch y carbon sydd wedi'i storio (fesul hectar) ymhob tref neu ddinas.

## Tabl 6:
## Gwerthoedd Storio Carbon ar gyfer Prosiectau Eco I-Tree yng Nghymru


| Eco dref/dinas I-Tree | Blwyddyn | Cyfanswm hectarau'r ardal astudio | Coed fesul hectar | % y Gorchudd canopi | Gorchudd Canopi cyfwerth mewn hectarau | C/ha cyfartalog ar draws yr Ardal astudio lawn (tunelli) | C/ha cyfartalog y gorchudd canopi (tunelli) (a) | Amcangyfrif o gyfanswm y carbon sydd wedi'i storio (tunelli) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pen-y-bont ar Ogwr | 2014 | 4,440 | 99 | 12.0 | 532 | 12 | 100 | 53,500 |
| Caerdydd | 2014 | 14,064 | 100 | 18.9 | 2,658 | 22 | 120 | 321,000 |
| Dalgylch Tawe (Abertawe) | 2014 | 6,995 | 76 | 16.0 | 1,119 | 14 | 91 | 102,000 |
| Wrecsam | 2013 | 6,995 | 95 | 17.0 | 651 | 17 | 100 | 65,800 |

Ffynhonnell: Prosiectau Eco I-Tree
(a) Caiff ei gyfrifo drwy rannu cyfanswm amcangyfrifol y carbon a gaiff ei storio yn ôl yr ardal o orchudd canopi yn yr ardal astudio

### c) Canfyddiadau am fanteision ac anfanteision coed trefol:


Mae Barn y Cyhoedd ynghylch yr Arolwg Coedwigaeth yn dangos mai y fantais fwyaf i goed trefol oedd eu bod yn “gwneud i’r lle edrych yn ddeniadol”, a’r anfantais fwyaf oedd bod coed trefol yn gollwng “dail a changhennau sy’n berygl ac yn gwneud llansast”.

## Siart 14:
## Manteision coed trefol, 2017, 2019




Ffynhonnell: Arolygon Barn y Cyhoedd ar Goedwigaeth

## Siart 15:
## Anfanteision coed trefol, 2017, 2019




Ffynhonnell: Arolygon Barn y Cyhoedd ar Goedwigaeth

## Perthnasedd

Un o ganlyniadau dymunol y strategaeth yw bod coetiroedd a choed trefol yn darparu amrywiaeth eang o fanteision, gyda defnydd mwy creadigol o gyfleoedd i blannu coetiroedd a choed mewn datblygiadau newydd wrth adfer safleoedd tir llwyd i roi mannau gwyrdd o safon uwch sy'n hawdd eu cyrraedd. Mae'r dangosydd hwn yn monitro arwynebedd coetiroedd trefol.

Wrth i'r canlyniad hwn gael ei wireddu, rydym yn disgwyl gweld canfyddiadau pobl am fanteision coed trefol yn newid. Mae ail ran y dangosydd hwn yn monitro'r canfyddiadau hyn drwy ddefnyddio data a gasglwyd o Arolwg Barn y Cyhoedd ar Goedwigaeth a gynhelir bob dwy flynedd.



# Pennod 7:
# Cydbwysedd carbon

## Pwyntiau allweddol

- Amcangyfrifir bod tua 1840 gigagram (1,840,000 tunnell) o garbon yn cael ei ddal a'i storio bob blwyddyn yng nghoetiroedd Cymru.
- Rhagwelir y bydd tir coedwig yn parhau'n ddalfa net ar gyfer carbon o'r atmosffer.

## Data:
## Carbon sy'n cael ei allyrru a charbon sy'n cael ei ddal:

Mae'r amcanestyniadau ar gyfer allyriadau a grëwyd gan y Centre for Ecology and Hydrology a Forest Research wedi eu creu gan ddefnyddio sefyllfaoedd gwahanol i'r rhai yn y gorffennol, felly ni ddylid cymharu'r data sydd i'w gweld yn y bennod hon gyda fersiynau blaenorol o'r ddogfen hon. Mae'r siartiau isod yn dangos allyriadau carbon hanesyddol ac amcanestyniadau o dan y sefyllfaoedd newydd a amlinellir yn y blwch isod:

Gwaelodlin 1 (BL1): Yn seiliedig ar bolisïau sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd a choedwigaeth sy'n bodoli ym mis Gorffennaf 2009 (sy'n ofynnol er mwyn cofnodi y Lefel Cyfeirio Rheoli Coedwigoedd a ddefnyddiwyd yn 2il Gyfnod Ymrwymo Protocol Kyoto). Mae'r amcanestyniadau yn parhau gyda chyfraddau gweithgarwch ar gyfartaledd 2009 (coedwigaeth) neu 2000-2009 (nad yw'n goedwigaeth) tan 2050.

Gwaelodlin 2 (BL2): Yn seiliedig ar bolisïau sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd a choedwigaeth sy'n bodoli ym mis Gorffennaf 2009 (fel yng Ngwaelodlin 1). Mae cyfraddau planu coedwigoedd yn syrthio i lefel isel wedi 2015 i roi amcan o effaith dim rhagor o blannu gyda chymorth grant y tu hwnt i'r hyn oedd wedi'i gynnwys yn y polisi a oedd yn bodoli yn 2009 o dan raglen gyfredol bryd hynny y Polisi Amaethyddiaeth Cyffredin, amcanestynnir bod gweithgareddau eraill yn parhau ar gyfraddau cyfartalog 2000-2009 tan 2050.


Canolog (C): Yn seiliedig ar bolisïau a chyllid cyfredol (oedd yn bodoli yn 2014) yn parhau ar yr un gyfradd i'r dyfodol. Yn parhau cyfraddau 2014 i 2050 ar gyfer gweithgareddau nad ydynt yn goedwigaeth. Ar gyfer coedwigo, mae cyfraddau plannu 2014 yn cael eu cynnal ar gyfer gweddill y Rhaglen Datblygu Gwledig (tan 2021) ac mae'r cyfraddau plannu yn dirywio wedi hynny i'r rhai yng Ngwaelodlin 2.

Isel (L): Dyheadau polisi lliniaru'r newid yn yr hinsawdd ar gyfer pob un o'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn cael eu rhagamcannu y tu hwnt i 2021.

Ymestyn (S): Mae hyn yn cymryd bod rhaglen lliniaru newid hinsawdd uchelgeisiol sy'n gwneud yn well na dyheadau neu gyllid y polisi presennol.


Dangosir allyriadau CO2 fel symiau cadarnhaol, a daliadau CO2 fel cyfansymiau negyddol.
O dan bob senario, bydd tir coedwig yn parhau'n ddalfa net ar gyfer allyriadau yn ystod y cyfnod hyd at 2050.

## Siart 16:
## Allyrru a dal $CO_2$ mewn coedwigoedd




Ffynhonnell: 2017/18 Projections of emissions and removals from the LULUCF sector to 2050, A. Thomson et al

## Siart 17:
## Allyrru a dal $CO_2$ mewn cynhyrchion pren a gynaeafwyd




Ffynhonnell: 2017/18 Projections of emissions and removals from the LULUCF sector to 2050, A. Thomson et al

## Perthnasedd

Un o ganlyniadau dymunol y strategaeth yw bod coetiroedd Cymru yn helpu i leihau ôl troed carbon Cymru. Mae'r dangosydd hwn yn monitro stociau carbon mewn biomas coetiroedd a chynhyrchion pren, a gostyngiad mewn carbon yn sgil amnewid cynhyrchion a thanwydd. Y tueddiadau dymunol yw cynyddu'r stociau carbon a lleihau allyriadau carbon.



# Pennod 8:
# Iechyd Coed

## Cyflwyniad

Mae iechyd coed a phlanhigion yn elfen bwysig o ecosystemau cydnerth. Mae newidiadau ym mhatrwm achosion o blâu a chlefydau eisoes yn peri bygythiad difrifol iawn i'n coetiroedd.

Mae'n bwysig ein bod yn gallu monitro lledaeniad plâu a chlefydau sy'n bodoli eisoes wrth ystyried y newid yn yr hinsawdd ac ymyriadau eraill.

Mae pob math o wahanol blâu a chlefydau, ond bydd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio'n benodol ar *Phytophthora ramorum*, clefyd coed ynn a gwyfyn ymdeithiwr y derw (OPM) yng Nghymru oherwydd y risg a maint y lledaeniad.

## Trosolwg ar gyfer Prydain


Mae'r Tree Health Diagnostic and Advisory Service (THDAS) yn rhan o Forest Research sy'n darparu gwasanaethau iechyd coed i bawb ledled Prydain. Fel un o'r sefydliadau sy'n gyfrifol am adrodd ar faterion iechyd coed, rhan o'i rôl yw dadansoddi ac adrodd ar samplau iechyd coed o bob cwr o Brydain a ddarperir gan weithwyr iechyd planhigion proffesiynol a'r cyhoedd. Mae rhestr o enghreifftiau o'r amgylcheddau mae'r THDAS yn ymwneud â nhw isod:

- Coetiroedd dan berchnogaeth gyhoeddus a phreifat
- Coed ar dir fferm, mewn gwrychoedd, lleiniau cysgodi a sgriniau
- Planhigfeydd coed Nadolig
- Coed mewn planhigfeydd garddwriaethol
- Coed amwynder dan berchnogaeth gyhoeddus a phreifat.

## Mae trosolwg o waith y THDAS ledled y DU yn Siart 18

## Siart 18:
## Nifer yr ymholiadau fesul gwlad a dderbyniwyd gan y THDAS, Ebrill – Mawrth 2019

Nid yw ffigurau ar gyfer *Phytophthora ramorum*, dirywiad derw acíwt a Dothistroma wedi'u cynnwys yn Siart 18.



Mae'r THDAS wedi ymdrin â chyfanswm o **2468** o ymholiadau erbyn diwedd mis Ebrill 2018, sef cynnydd o **700** o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'n debygol mai'r cynnydd yn yr adroddiadau o wyfyn ymdeithiwr y derw (OPM) yn dilyn tymereddau uchel a'r erthyglau yn y wasg ar ddechrau'r tymor sy'n rhannol gyfrifol am y cynnydd yn nifer yr ymholiadau.

## *Ips typographus*

Mae dau achos o *Ips typographus* – y chwilen rhisgl sbriws 8 dant – wedi'u canfod ger Ashford, Caint. Y chwilen hon yw un o achosion colli coed sbriws ar raddfa fawr ar dir mawr Ewrop dros y degawd diwethaf. Gyda hafau hirach a gwres mwy tanbaid yn achosi sychder a straen, mae coed yn fwy agored i bla.

Ers yr achosion, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Gweinyddiaethau Datganoledig, y Comisiwn Coedwigaeth a'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion i ddileu'r pla hwn o'r DU.

Mae llawer o blâu a chlefydau yn effeithio ar iechyd ein coed a'n coetiroedd, ac mae mwy o wybodaeth ar rywogaethau penodol yn y porth iechyd planhigion (**https://planthealthportal.defra.gov.uk**) sy'n cynnwys adroddiadau manwl o'r bygythiadau iechyd coed sy'n wynebu'r DU ar hyn o bryd.

## Iechyd Coed yng Nghymru

*Phytophthora ramorum*

O'r holl blâu a chlefydau sy'n effeithio ar goed yng Nghymru, *Phytophthora ramorum* sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar yr economi, y gymdeithas a'r amgylchedd. Mae Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â CNC a rhanddeiliaid allanol, wedi cyhoeddi ei strategaeth newydd ar gyfer rheoli Phytophthora ramorum, sydd ar gael yn **https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/phytophthora-ramorum-strategaeth-i-reolir-clefyd.pdf**

Ers 2009, mae CNC wedi cofnodi'r rhannau o Gymru sydd wedi derbyn Hysbysiadau Iechyd Planhigion Statudol (SPHN), gan roi cyfarwyddiadau ar ddinistrio dan orfodaeth ddeunydd a all fod yn heintus. Mae'n bwysig nodi nad llarwydden fydd yr holl ddeunydd yn yr SPHN oherwydd cymysgedd rhywogaethau a chynllunio ymylon sy'n gallu gwrthsefyll gwynt.

## Tabl 8:
## Cyfraddau Cynnydd mewn Ardaloedd o dan SPHN neu Lythyr Hysbysu*

| Blwyddyn | Ardaloedd o dan SPHN fesul blwyddyn (ha) | Ardal gronnol o dan SPHN (ha) |
|---|---|---|
| 2010 | 836 | 836 |
| 2011 | 476 | 1,311 |
| 2012 | 1,478 | 2,788 |
| 2013 | 5,285 | 8,074 |
| 2014 | 508 | 8,581 |
| 2015 | 109 | 8,690 |
| 2016 | 199 | 8,888 |
| 2017 | 1,273 | 10,162 |
| 2018 | 1,028 | 11,190 |
| 2019 | 876 | 12,285 |


* Data yn gywir ar 7 Hydref 2019 ac a ddarparwyd trwy adroddiadau sefyllfa CNC ar gyfer 2010-2019.

## Clefyd coed ynn

Ers canfod y ffyngau am y tro cyntaf yng Nghymru yn 2012, mae clefyd coed ynn wedi'i gofnodi bron iawn ym mhob grid 10 cilometr sgwâr yng Nghymru (Map 1). Mae'r clefyd wedi'i fesur ar wahanol ddwyster ledled Cymru oherwydd poblogaeth wasgaredig coed ynn, a bydd angen ei reoli'n wahanol yn dibynnu ar leoliadau safle.

Yn 2019, mae Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid yn crynhoi grŵp craidd strategol ac amryw o grwpiau gweithredol a fydd yn cyfrannu at strategaeth clefyd coed ynn Llywodraeth Cymru.

## Map 4. Canlyniadau arolwg clefyd coed ynn 10 cilometr sgwâr




## Gwyfyn Ymdeithiwr y Derw (OPM)

Mae OPM wedi bod yn bresennol ym 'mharth dan reolaeth' Llundain Fwyaf ers 2003. Mae gweddill y DU wedi'i ddynodi fel parth di-bla ac yn cael ei alw'n 'barth gwarchod'.

Yn 2019, cafodd coed derw heintus eu mewnforio o Ewrop, gan arwain at ymchwiliad mawr ac, mewn ymateb, cafodd dros 70 o goed derw eu cipio a'u dileu yn 'Parth Gwarchod' y DU. Roedd tri o'r safleoedd hyn yng Nghymru, ac mae'r safleoedd hyn wedi'u trin a llwyddwyd i ddileu'r pla.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'r Comisiwn Coedwigaeth, yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion a CNC i ymateb, a bydd yn rhoi rhaglenni goruchwylio ar waith ar gyfer y flwyddyn nesaf.



Pennod 9:

# Manteision lleol coetiroedd

## Pwyntiau allweddol


- Roedd canran y bobl oedd yn nodi o leiaf un fantais i goetiroedd yn 97% yn 2019, gostyngiad o 1 pwynt canran ers 2011.
- Roedd canran y bobl sy'n nodi o leiaf un anfantais i goetiroedd yn 47% yn 2019, cynnydd o 5% ers 2011.
- Mae canran y bobl sy'n enwi manteision unigol coetiroedd wedi cynyddu yn 2019 o gymharu â 2017, ac eithrio'r categorïau 'Darparu lle ar gyfer gweithgareddau hamdden' ac 'Arall', lle bu gostyngiad bach.
- Gwnaeth canran y bobl sy'n enwi anfanteision unigol gynyddu neu aros yr un peth ar gyfer y rhan fwyaf o'r anfanteision yn 2019 o gymharu â 2017. Cynyddodd 'Cael eu defnyddio ar gyfer tipio anghyfreithlon 4 pwynt canran, a bu cynnydd bach i 'Ni allwn ni reoli'r hyn sy'n digwydd mewn coetiroedd' a 'Methu cael coed tân'.

## Data

Ers 2005, mae Arolwg Barn y Cyhoedd ar Goedwigaeth wedi holi ymatebwyr ynglŷn â'u canfyddiad o fanteision coetiroedd cyfagos i gymunedau lleol, ac ers 2009 mae wedi'u holi ynglŷn â'u canfyddiad o broblemau sy'n gysylltiedig â choetiroedd sy'n anfantais i'r gymuned leol. Ers 2013, gofynnwyd cwestiynau newydd ychwanegol ynglŷn â chanfyddiad ymatebwyr o fanteision ac anfanteision coed trefol, sydd heb eu dangos yma. Cafodd dros 1,000 o bobl eu holi, gyda 1,001 o ymatebwyr yn 2019.


**a) Newidiadau yng nghanfyddiad pobl o fanteision coetiroedd i gymunedau lleol:**

## Siart 19:
## Manteision coetiroedd lleol i gymunedau



### b) Newidiadau yng nghanfyddiad pobl o anfanteision coetiroedd i gymunedau lleol:


## Siart 20: Anfanteision coetiroedd i gymunedau lleol



### c) Manteision ac anfanteision coetiroedd lleol:

Nododd 97% o'r rhai a ymatebodd i Arolwg Barn diwethaf y Cyhoedd ar Goedwigaeth o leiaf un fantais i gymunedau lleol o gael coetiroedd, tra bo 47% wedi nodi o leiaf un anfantais. Y fantais fwyaf poblogaidd a ddewiswyd oedd eu bod yn 'darparu lle i fywyd gwyllt fyw', a'r anfantais fwyaf poblogaidd a ddewiswyd oedd bod coetiroedd yn 'Cael eu defnyddio ar gyfer tipio anghyfreithlon'.

## Siart 21:
## Canran y bobl yn nodi o leiaf un fantais neu anfantais




*Dim ond ers 2009 y gofynnwyd ycwestiwn hwn

Ffynhonnell: Arolygon Barn y Cyhoedd ar Goedwigaeth

## Perthnasedd

Dyma bedwar o ganlyniadau dymunol y strategaeth: (i) bod coetiroedd yn cael eu haddasu'n well er mwyn darparu amrywiaeth eang o fanteision, (ii) bod coetiroedd a choed trefol yn cynnig amrywiaeth eang o fanteision, (iii) bod mwy o gymunedau'n manteisio ar goetiroedd a choed, a (iv) bod mwy o bobl yn mwynhau'r manteision dysgu gydol oes sy'n gysylltiedig â choetiroedd a'u cynhyrchion.

Wrth i'r canlyniadau hyn gael eu gwireddu, rydym yn disgwyl gweld newidiadau yng nghanfyddiadau pobl o fanteision coetiroedd a choed trefol lleol i'w cymunedau. Mae'r dangosydd hwn yn monitro'r canfyddiadau hynny gan ddefnyddio data a gasglwyd o Arolwg Barn y Cyhoedd am Goedwigaeth a gynhelir bob dwy flynedd. Dyma'r tueddiadau dymunol:

a) Mwy o bobl yn nodi bod coetiroedd yn dod â nifer o fanteision i gymunedau lleol

b) Canrannau uwch o bobl yn nodi manteision unigol

c) Canrannau is o bobl yn nodi anfanteision unigol

d) Mwy o bobl yn nodi manteision coed trefol neu goed ar stryd

## Nodiadau

I gael rhagor o wybodaeth am y data ar goed trefol, gweler Pennod 6. Coetiroedd a Choed Trefol.



# Pennod 10:
# Cynnwys cymunedau

## Pwyntiau allweddol

- Dangosodd Arolwg Barn y Cyhoedd o Goedwigaeth 2015 bod cynnydd sylweddol yng nghanran yr aelwydydd sy'n gysylltiedig ag addysg coetiroedd, er erbyn 2019 roedd wedi gostwng 6 phwynt canran.
- Bu sefydlogrwydd yng nghanran y bobl yr ymgynghorwyd â hwy am gynlluniau coetiroedd, a chanran oedolion sy'n gwirfoddoli mewn coetiroedd, gyda chynnydd bychan yng nghanran yr aelodau o grwpiau coetir cymunedol a chynnydd sylweddol yn nifer y bobl sydd am inni ymgynghori â hwy.
- Dengys ein data diweddaraf y bu cynnydd graddol yn nifer y grwpiau coetir cymunedol a chynnydd mawr yn arwynebedd y tir sy'n cael ei lesio neu sy'n berchen i grwpiau cymunedol rhwng 2016 a 2019.
- Cynnyrch addurno, blodau a chrefft yw'r cynnyrch sy'n cael ei gasglu fwyaf o goetiroedd yn ystod 2019.

## Data

### Tabl 9: Bod yn gysylltiedig â choetiroedd

| | Llinell sylfaen (%) | Dyddiad Llinell sylfaen | 2015 (%) | 2017 (%) | 2019 (%) |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymgynghori ar gynlluniau coetiroedd (% oedolion) | 4 | 2005 | 5 | 5 | 4 |
| Ymgynghori ar gynlluniau coetiroedd – Hoffech chi i ni ymgynghori â chi yn y dyfodol (% oedolion) | 19 | 2005 | 37 | 39 | 44 |
| Aelodaeth o grwpiau coetir cymunedol (% oedolion) | 2 | 2005 | 3 | 4 | 4 |
| Yn gysylltiedig ag addysg coetiroedd (% aelwydydd) | 15 | 2005 | 27 | 20 | 21 |
| Y nifer sy'n gwirfoddoli mewn coetiroedd (% oedolion) | 3 | 2009 | 5 | 5 | 5 |

Ffynhonnell: Arolygon Barn y Cyhoedd ar Goedwigaeth

### Tabl 10: Grwpiau cymunedol

| | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y grwpiau coetir cymunedol gweithredol | 76 | 84 | 89 | 95 |
| Arwynebedd y tir yn cael ei lesio gan grwpiau coetir cymunedol, neu sy'n eiddo iddynt (Hectar) | 1706 | - | - | 5623 |

Ffynhonnell: Ffurflenni aelodaeth coetir cymunedol grŵp Llais y Goedwig. Nid yw grwpiau nad ydynt eto'n aelodau o Llais y Goedwig na Chynghorau Cymuned sy'n rheoli coetiroedd wedi'u cynnwys.

## Tabl 11:
## Cynhyrchion a gasglwyd o goedwigoedd a choetiroedd dros y 12 mis diwethaf*

| Cynnyrch | 2019 |
|---|---|
| Cynhyrchion addurnol, blodau a chrefft (fel dail, canghennau, coesynnau, mwsogl, cen a llysiau lliw) | 23 |
| Eitemau i'w bwyta a'u hyfed (fel mwyar, ffyngau, cnau, blodau a sudd) | 22 |
| Eitemau at ddefnydd tymhorol, diwylliannol a chrefyddol (fel celyn, eiddew a gwialennau cyll | 15 |
| Atchwanegiadau meddyginiaethol neu ddietegol (fel breci, erwain a drain gwynion) | 2 |
| Arall (rhowch fanylion) | 1 |
| Dim un o'r uchod | 59 |

*Nodwch: Mae'r ffigurau yn seiliedig ar yr ymatebwyr a oedd wedi ymweld â choetiroedd: Cyfanswm wedi'i bwysoli – 2019 (767)

Ffynhonnell: Wales Public Opinion of Forestry 2019

## Perthnasedd

Dau o ganlyniadau dymunol y strategaeth yw bod mwy o gymunedau yn cyfrannu at benderfyniadau yn ymwneud â choetiroedd a'r gwaith o reoli coetiroedd, a hynny fel y bo coetiroedd yn cynnig rhagor o fanteision ar lefel gymunedol, a bod mwy o bobl o bob oedran yn manteisio ar ddefnyddio coetiroedd fel lleoliadau ar gyfer dysgu a chwarae. Mae'r dangosydd hwn yn monitro cyfran y boblogaeth sy'n gysylltiedig â choetiroedd.



# Pennod 11:
# Gweithgareddau hamdden


## Pwyntiau allweddol

- Mae Arolwg Barn y Cyhoedd ar Goedwigaeth 2019 yn nodi bod 77% o oedolion a holwyd yng Nghymru wedi ymweld â choetiroedd ar gyfer gweithgareddau hamdden yn ystod y 12 mis diwethaf.
- Y gweithgaredd mwyaf poblogaidd ar goetiroedd yn 2019 oedd cerdded.
- Coetir oedd yr ail hoff gyrchfan yn yr awyr agored, ar ôl parciau lleol.

## Data

### a) Canran yr oedolion yn ymweld â choetiroedd 2003-2015

Siart 22:
Canran yr oedolion sydd wedi ymweld â choetiroedd yn ystod y blynyddoedd diwethaf (2003–2013)/12 mis diwethaf (2015 ymlaen)*




* Yn 2015 cafodd geiriad y cwestiynau eu newid o ofyn am ymweliadau "yn ystod y blynyddoedd diwethaf" i ofyn am ymweliadau "yn y 12 mis diwethaf"

Ffynhonnell: Arolwg Barn y Cyhoedd ar Goedwigaeth; dim data ar gael ar gyfer 2009

Yn 2019, roedd 77% o oedolion a holwyd yng Nghymru wedi ymweld â choetir yn y 12 mis diwethaf, y ganran uchaf ers 2007. Dylid nodi bod arolygon cyn 2015 yn gofyn a oedd ymatebwyr wedi ymweld â choetir yn y blynyddoedd diwethaf, a bod arolygon o 2015 ymlaen yn gofyn a oedd ymatebwyr wedi ymweld â choetir yn y 12 mis diwethaf. O'r ymatebwyr a oedd wedi ymweld â choetir yn y 12 mis diwethaf, roedd tua hanner (51%) ohonynt wedi ymweld â choetiroedd yng nghefn gwlad ar eu hymweliad diwethaf yn hytrach na choetir mewn neu gerllaw trefi. Y rhesymau mwyaf cyffredin a roddwyd am beidio ag ymweld â choetiroedd oedd 'problemau symudedd personol eraill' (35% yn 2019), neu 'yn rhy brysur/dim digon o amser, (28% yn 2019). Yn 2019 dywedodd 14% o ymatebwyr nad oedd diddordeb ganddynt mewn ymweld â choetiroedd.

### b) Mathau o weithgareddau sydd mewn coetiroedd

Cynhaliwyd Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru am y tro cyntaf yn 2008, ac yna yn 2011 a 2014. Yn 2011, coetir oedd y prif le yr ymwelwyd ag ef mewn 18% o'r ymweliadau mwyaf diweddar; erbyn 2014, roedd hyn wedi gostwng i 15%. Fodd bynnag, yn 2014, coetiroedd oedd yr ail gyrchfan fwyaf


poblogaidd yn yr awyr agored, yn ail i barciau lleol. Dywedodd 12% y byddent yn hoffi ymweld â choetir yn amlach (o gymharu â 13% yn 2011). Roedd y galw yn y dyfodol am ymweliadau â choetiroedd o fwy o ddiddordeb i ymatebwyr oedd â phlant (15%) a'r rhai yn y 10% isaf o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig (19%). Roedd tua hanner yr ymweliadau awyr agored (52%) gan ymatebwyr yn ddiweddar yn cynnwys amser a dreuliwyd mewn coetir, cynnydd graddol o 2008 (36%) a 2011 (41%).

O ran ymweliadau â choetiroedd:

- Y rhai oedd yn fwyaf tebygol o ymweld â choetir oedd pobl rhwng 16-24 mlwydd oed (57%), y rhai sy'n byw yng Ngogledd Cymru (56%), perchenogion cŵn (56%), y rhai mewn gwaith (56%) a dynion (56%).
- Roedd canran is o ymwelwyr â choetiroedd yn gwario arian nag mewn lleoliadau hamdden eraill yn yr awyr agored. Y ganran o ymweliadau â choetir a oedd yn gwario arian oedd 33%, o gymharu â'r cyfartaledd o 42% ar gyfer pob gweithgaredd awyr agored. Y ganran uchaf o ymwelwyr a oedd yn gwario arian oedd ymwelwyr â'r môr (74% o ymweliadau), a'r ganran isaf oedd ymwelwyr â thir ffermio neu lwybrau/palmantau wrth ochr y ffordd (29% ar gyfer y ddau). Bwyd a diod (30%) a thanwydd (18%) oedd y categorïau uchaf o wariant ar gyfer yr holl ymweliadau awyr agored.

Mae'r data diweddaraf ar weithgareddau hamdden awyr agored ar gael yn Arolwg Barn y Cyhoedd ar Goedwigaeth 2019, ac mae'n cael ei ddangos yn siart 23 isod. Y gweithgaredd mwyaf poblogaidd ar goetir oedd cerdded (89%).

## Siart 23:
## Canran yr ymatebwyr sy'n gwneud gweithgareddau hamdden mewn coedwigoedd neu goetiroedd yn y 12 mis diwethaf**




**Mae'r ffigurau'n seiliedig ar ymatebwyr a oedd wedi ymweld â choetir: Y cyfanswm wedi'i bwysoli – 2019 (767). Roedd ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un fantais.

Ffynhonnell: Arolwg Barn y Cyhoedd ar Goedwigaeth

## Perthnasedd

Un o ganlyniadau dymunol y strategaeth yw bod mwy a mwy o bobl yn byw bywydau iachach yn sgil defnyddio a mwynhau coetiroedd. Mae'r dangosydd hwn yn ystyried y defnydd o goetiroedd ar gyfer gweithgareddau hamdden goddefol a gweithredol.

## Nodiadau

Cafodd geiriad Arolwg Barn y Cyhoedd o Goedwigoedd ei newid yn 2015 i ganolbwyntio ar ymweliadau oedd wedi digwydd yn y 12 mis diwethaf yn hytrach nag yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf (sef geiriad yr arolwg blaenorol). Felly nid oes modd cymharu rhai o'r canlyniadau ar gyfer 2015 ymlaen yn uniongyrchol â ffigurau o flynyddoedd blaenorol.



# Pennod 12: Hygyrchedd


## Pwyntiau allweddol

- Dywedodd 73% o'r ymatebwyr i'r Arolwg Barn y Cyhoedd ar Goedwigaeth 2019 eu bod yn gallu cyrraedd coetir yn hawdd heb gar neu drafnidiaeth arall
- Mae canran y bobl sy'n dweud hynny wedi parhau'n weddol sefydlog dros y 10 mlynedd ddiwethaf.
- Mae canran y bobl sy'n byw o fewn 500m i 2 ha+ o goetir, ac sy'n byw o fewn 4km i o leiaf 20ha o goetir wedi cynyddu yn raddol rhwng 2004 a 2016.

## Data

### a) Data cryno


### Siart 24: Canran yr oedolion â mynediad hawdd i goetir heb gar




Ffynhonnell: Arolygon Barn y Cyhoedd am Goedwigaeth; dim data ar gael ar gyfer 2007

Mae Safon Mynediad Coetiroedd Coed Cadw yn awgrymu y dylai pawb fyw o fewn 500m i o leiaf 2ha o goetir a hefyd o fewn 4km i o leiaf 20ha o goetir. Mae'r data isod yn dangos i ba raddau y llwyddwyd i gyflawni hyn yng Nghymru hyd yma.

## Siart 25:
## Canran y boblogaeth â mynediad i goetiroedd




Ffynhonnell: 'Space for People', Coed Cadw

Mae'r tabl isod yn dangos cynnydd bach yng nghanran y boblogaeth sydd â mynediad i 2 ha+ o goetir o fewn 500m o'u cartrefi a gostyngiad bach yn nifer y rheini sy'n byw o fewn 4km i 20 hectar+ o goetir rhwng 2012 a 2016.

## Tabl 12:
## Ardal drefol â mynediad i goetir

| | Canran yr ardal drefol, 2014 | Canran yr ardal drefol, 2009 | Canran yr ardal drefol, 2012 | Canran yr ardal drefol, 2016 |
|---|---|---|---|---|
| Mynediad i 2ha+ o goed o fewn 500m | 15.7 | 17.4 | 22.8 | 23.6 |
| Mynediad i 20ha+ o goed o fewn 4km | 72.3 | 76.7 | 80.8 | 80.6 |

Ffynhonnell: 'Space for People', Coed Cadw

### b) Data ar gyfer ardaloedd â lefelau uchel o amddifadedd iechyd

Mae'r tabl canlynol yn dangos data ar goetiroedd â mynediad cyhoeddus yn y pedair sir â'r lefelau uchaf o amddifadedd iechyd yng Nghymru.

## Tabl 13:
## Mynediad i goetiroedd ar gyfer ardaloedd â lefelau uchel o amddifadedd iechyd

| | % y boblogaeth â mynediad i 2ha+ o goed o fewn 500m | | | | % boblogaeth â mynediad i 20ha+ o goed o fewn 4km | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2004 | 2009 | 2012 | 2016 | 2004 | 2009 | 2012 | 2016 |
| Blaenau Gwent | 32 | 43.9 | 43.1 | 43.2 | 99.8 | 93.4 | 99.3 | 99.4 |
| Merthyr Tudful | 26 | 34.9 | 35.1 | 35.2 | 98 | 90.9 | 94 | 94.1 |
| Castell-nedd Port Talbot | 32 | 22.6 | 22.4 | 29.2 | 97 | 98.4 | 98.2 | 97.7 |
| Rhondda Cynon Taf | 32 | 36.6 | 35.5 | 35.6 | 99.9 | 99.8 | 99.8 | 99.8 |

Ffynhonnell: Space for People, Coed Cadw

Gwelodd Blaenau Gwent a Merthyr Tudful ill dau gynnydd mawr yn y ganran o'r boblogaeth oedd â mynediad i 2 hectar+ o goetiroedd o fewn 500m i'w cartrefi rhwng 2004 a 2016, tra bo Castell-nedd Port Talbot wedi gweld gostyngiad mawr o ran pwynt canran.

Yn ddiddorol iawn Castell-nedd Port Talbot oedd yr unig sir i weld cynnydd cyffredinol yn y pwynt canran o'r boblogaeth oedd â mynediad i 20 hectar+ o goetiroedd o fewn 4km i'w cartrefi rhwng 2004 a 2016 allan o'r 4 sir yn y tabl uchod.

## Perthnasedd

Un o ganlyniadau dymunol y strategaeth yw bod mwy o bobl yn byw bywydau iachach yn sgil defnyddio a mwynhau coetiroedd. Un o'r nodau yw annog a hyrwyddo mynediad i goetiroedd ledled Cymru, gan ddarparu seilwaith addas a choetiroedd sy'n cael eu rheoli'n dda ac sy'n teimlo'n ddiogel a chroesawgar. Mae'r dangosydd hwn yn ystyried faint o goetiroedd sy'n cynnig mynediad i'r cyhoedd, a gellir ei ddadansoddi yn ôl ardal ddaearyddol.



# Pennod 13:
# Mentrau lleol

## Pwyntiau allweddol

- Bu rhwng 10,300 a 11,000 o bobl yn gweithio yn y sector coedwigaeth yng Nghymru yn 2017.
- Mae nifer y gweithwyr yn y sector coedwigaeth a nifer yr unedau busnes wedi aros yn weddol sefydlog yn y blynyddoedd diwethaf.

## Data

### Tabl 14:
### Amcangyfrifon o weithwyr cyflogedig y sector coedwigaeth yn 2017


| | Unedau busnes (2017) | Gweithwyr (2017) | |
|---|---|---|---|
| | | Llawn amser | Rhan-amser |
| Coedwigaeth a thorri a thrin coed (SIC 02) | 330 | 500 | 400 |
| Gweithgynhyrchu coed a chynhyrchion coed a chorc (SIC 16) | 420 | 5,500 | 100 |
| Gweithgynhyrchu papur a chynhyrchion papur (SIC 17) | 55 | 3,500 | 300 |
| CYFANSWM | 805 | 9,500 | 800 |

Ffynhonnell: Arolwg Cyflogaeth a Chofrestr Busnes (BRES), gan ddefnyddio Dosbarthiad Diwydiannol Safonol y DU a'r Gofrestr Busnesau Ryng-Adrannol Ffynhonnell: Arolwg Cyflogaeth a Chofrestr Busnes (BRES), gan ddefnyddio Dosbarthiad Diwydiannol Safonol y DU a'r Gofrestr Busnesau Ryng-Adrannol.

Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (2017) yn dangos y gallai fod 9,000 o weithwyr cyflogedig a 2,000 o bobl hunangyflogedig yn gweithio yn y sector coedwigaeth. Mae ffigur yr hunangyflogedig yn seiliedig ar nifer fach o ymatebion i'r arolwg ac yn cael ei ystyried yn ddata o ansawdd gwael. Fel cyfanswm, gall fod cymaint ag 11,000 o bobl yn gweithio yn y sector.

I roi'r ffigurau hyn yn eu cyd-destun, amcangyfrifir bod 128,100 o bobl yn gweithio yn y sector coedwigaeth ledled y DU gydag efallai 23,500 ar ben hynny'n hunangyflogedig. Mae hyn yn golygu bod rhyw 7.2% o'r holl bobl sy'n gweithio yn sector coedwigaeth y DU yn gweithio yng Nghymru.


### Siart 26:
### Newidiadau o ran niferoedd gweithwyr cyflogedig




Ffynhonnell: Cofrestr Busnes a'r Arolwg Cyflogaeth (BRES), gan ddefnyddio Dosbarthiad Diwydiannol Safonol y DU.

Mae nifer y gweithwyr wedi amrywio ers 1999 ond y mae wedi aros yn gymharol sefydlog gan gwympo i'w isaf i 8,200 yn 2011 a chodi i'w uchaf i 11,100 ym 1999, 2000 a 2014.

## Siart 27:
## Newidiadau o ran nifer y busnesau




Ffynhonnell: Cofrestr Busnes a'r Arolwg Cyflogaeth (BRES), gan ddefnyddio Dosbarthiad Diwydiannol Safonol y DU.

Mae nifer y busnesau wedi aros yn gymharol sefydlog ers 1999, gyda'r cyfanswm lleiaf o 720 yn 2013 a 2014 a'r cyfanswm mwyaf o 820 yn 2008.

## Perthnasedd

Un o ganlyniadau dymunol y strategaeth yw bod mwy o bobl yn elwa ar fentrau sy'n gysylltiedig â choetiroedd, ac un o'r nodau yw bod mwy o bobl yn rhedeg busnesau, yn meithrin sgiliau ac yn creu swyddi mewn mentrau sy'n gysylltiedig â choetiroedd a phren. Mae'r dangosydd hwn yn defnyddio data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i fonitro:

- nifer y mentrau cysylltiedig â choetiroedd yng Nghymru, gan gynnwys busnesau sydd wedi cael eu cofrestru at ddibenion TAW a busnesau sydd heb gael eu cofrestru at ddibenion TAW.
- brasamcan o'r nifer sy'n cael eu cyflogi gan y mentrau hyn
- amcangyfrif o nifer y bobl hunan-gyflogedig sy'n gweithio yn y sector.

## Nodiadau

Dylid nodi y gellid ystyried bod busnesau eraill nad ydynt yn rhan o'r sectorau uchod yn cael eu cefnogi'n llawn neu'n rhannol gan goedwigaeth hefyd. Fodd bynnag, nid yw'r dosbarthiadau SIC a ddefnyddir ar hyn o bryd yn caniatáu inni gynnwys y busnesau hynny. Yn benodol, nid oes amcangyfrif o nifer y bobl sy'n cael eu cyflogi mewn busnesau hamdden mewn coetiroedd.

Cafodd pob ffigwr sy'n gysylltiedig ag unedau Busnes eu diweddaru ddiwethaf yn 2015, a chafodd rhifau gweithwyr eu diweddaru ddiwethaf yn 2014.



# Pennod 14:
# Defnydd o bren


## Pwyntiau allweddol

- Cafodd 97% o'r pren meddal oedd ar gael ei gynaeafu yn 2017, sydd o fewn yr ystod dderbyniol o 77% i 98%. Fodd bynnag y gymhareb rhwng y cynhaeaf pren meddal a'r lefel oedd ar gael dros y 10 mlynedd diwethaf oedd 90% sy'n uwch na'r duedd a ddymunir o lai nag 86%.
- Cafodd 57% o foncyffion Cymru eu prosesu mewn melinau coed yng Nghymru.

## Data

### a) Cyfanswm y gymhareb cynhaeaf/argaeledd

## Siart 28:
## Pren a gynaeafwyd




Ffynhonnell: Ystadegau Coedwigaeth, Rhagolygon Cynhyrchu'r Comisiwn Coedwigaeth, dadansoddiad o ddata'r Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed

Y prif bethau i'w nodi o Siart 28 yw bod argaeledd pren caled wedi gostwng yn 2013, hynny gan fod y data'n gywirach (gweler yr adran nodiadau), ac ers 2008 mae'r cynhaeaf ac argaeledd pren meddal wedi codi.


## Tabl 15:
## Cymarebau cynaeafu/argaeledd

| Blwyddyn | 2000 | 2001 | 2002 | 2003 | 2004 | 2005 | 2006 | 2007 | 2008 | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pren meddal (%) | 85 | 91 | 96 | 92 | 85 | 74 | 74 | 81 | 74 | 87 | 90 | 100 | 96 | 97 | 90 | 85 | 87 | 97 |
| Pren meddal – Cyfartaledd 10 mlynedd treigl (%) | 77 | 80 | 82 | 85 | 86 | 86 | 85 | 84 | 84 | 84 | 84 | 85 | 85 | 86 | 86 | 87 | 89 | 90 |
| Pren caled (%) | 8 | 8 | 8 | 7 | 7 | 7 | 5 | 6 | 5 | 7 | 7 | 7 | 7 | 84 | 84 | 88 | 94 | 64 |

Ffynhonnell: Ystadegau Coedwigaeth, Rhagolygon Cynhyrchu'r Comisiwn Coedwigaeth, dadansoddiad o ddata'r Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r gymhareb rhwng pren meddal a chyfartaledd treigl 10 mlynedd pren meddal wedi aros yn gymharol gyson, ond gwelwyd cynnydd cyson yn y blynyddoedd diwethaf ac mae'r cyfartaledd 10 mlynedd bellach yn uwch na'r targed o lai nag 86%. Mae gwelliant yng nghywirdeb yr amcangyfrifon pren caled sydd ar gael wedi arwain at newid mawr yn y gymhareb cynhaeafu/argaeledd pren caled (gweler y nodiadau am ragor o fanylion).

## Siart 29:
## Cymarebau cynaeafu/argaeledd




Ffynhonnell: Ystadegau Coedwigaeth, Rhagolygon Cynhyrchu'r Comisiwn Coedwigaeth, dadansoddiad o ddata Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed.


## b) Cyfran o foncyffion Cymru a broseswyd yng Nghymru

### Tabl 16:
### Boncyffion o Gymru a gyflenwyd i felinau coed yn y DU (mil tunnell wyrdd)

| Blwyddyn | | | | Lleoliad y felin goed |
|---|---|---|---|---|
| | Cymru | Lloegr | Yr Alban | Cyfanswm y Du |
| 2005 | 447 | 198 | 0 | 645 |
| 2006 | 455 | 229 | 0 | 684 |
| 2007 | 476 | 211 | 0 | 688 |
| 2008 | 428 | 204 | 0 | 632 |
| 2009 | 399 | 192 | 0 | 591 |
| 2010 | 419 | 147 | 2 | 568 |
| 2011 | 477 | 233 | 1 | 710 |
| 2012 | 485 | 277 | 5 | 767 |
| 2013 | 520 | 276 | 5 | 801 |
| 2014 | 560 | 311 | 0 | 871 |
| 2015 | 490 | 320 | 0 | 810 |
| 2016 | 450 | 331 | 0 | 781 |
| 2017 | 448 | 340 | 0 | 788 |

Ffynhonnell: Ystadegau Coedwigaeth

### Siart 30:
### Canran y boncyffion o Gymru a broseswyd yng Nghymru




Ffynhonnell: Ystadegau Coedwigaeth

Mae Tabl 12 yn dangos, ers 2010, bod y tunelledd boncyffion o Gymru a anfonwyd i felinau coed yn y DU wedi cynyddu tan 2014 ond ei fod wedi cwympo ers hynny. Mae Siart 30 yn dangos bod canran y boncyffion o Gymru sydd wedi'u prosesu yng Nghymru wedi cwympo ers 2013.

### c) Ffynhonnell y pren a gyflenwyd i broseswyr pren sylfaenol ac eilaidd yng Nghymru (llinell sylfaen 2010)

I'w ddatblygu.

## Perthnasedd

Un o ganlyniadau dymunol y strategaeth yw bod mwy o bren a dyfir yng Nghymru yn cael ei ddefnyddio yng Nghymru. Bydd gwireddu'r canlyniad hwnnw yn helpu i wireddu un o'r canlyniadau eraill hefyd: bod coetiroedd Cymru yn cyfrannu at leihau ôl troed carbon Cymru. Mae'r dangosydd hwn yn monitro cyfran y coed sydd ar gael sy'n cael ei chynaeafu (yn ôl rhagolygon y pren meddal fydd ar gael), a'r gyfran sy'n cael ei phrosesu yng Nghymru er mwyn ychwanegu gwerth. Dyma'r tueddiadau dymunol:

a) Bod cyfanswm y gymhareb cynaeafu/argaeledd yn cynyddu, ond yn bennaf trwy gynnydd yng nghyfanswm y pren caled sy'n cael ei gynaeafu.

b) Bod y gymhareb cynaeafu/argaeledd ar gyfer pren meddal yn cael ei chadw o dan 86%, ar gyfartaledd, dros gyfnod o o 10 mlynedd, a rhwng 77% a 98% yn flynyddol.

c) Bod cyfran y coed o Gymru sy'n cael ei phrosesu yng Nghymru yn cynyddu.

## Nodiadau

Cyn 2013, amcangyfrifwyd y rhagolygon o'r pren caled a fyddai ar gael drwy ddefnyddio data NIWT. Ers hynny, datblygwyd rhagolygon manylach o'r pren caled a fyddai ar gael dros gyfnod o 50 mlynedd. Mae'r rhagolygon hynny'n dangos y bydd llawer llai o bren caled ar gael nag y tybiwyd cynt, a dyna'r rheswm dros y cynnydd dramatig yn y gymhareb cynaeafu/argaeledd ar gyfer pren caled, a'r gostyngiad yn argaeledd pren caled.



# Pennod 15:
# Gwerth y sector coedwigaeth

## Pwyntiau allweddol

- Yn 2017, cyfanswm Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) y sector coedwigaeth oedd £665 miliwn. Mae'r sector coedwigaeth yn cynnwys y diwydiannau canlynol:
  - – coedwigaeth a thorri a thrin coed
  - – cynhyrchu cynnyrch o goed, ar wahân i ddodrefn
  - – cynhyrchu cynnyrch papur.
- Mae GVA y sector wedi codi yn y blynyddoedd diwethaf, ac mae bellach yn uwch nag y bu yn 2013, pan fu uchafbwynt diwethaf cyfanswm y GVA.
- Mae GVA y sector coedwigaeth yng Nghymru wedi gostwng a chodi yn gyflymach na'r DU yn gyffredinol.


## Data

### Tabl 17:
### Gwerth Ychwanegol Gros (GYG) y sector coedwigaeth yng Nghymru

| | GYG (£ miliwn) |
|---|---|
| Coedwigaeth a thrin a thorri coed (SIC 02) | 50 |
| Gweithgynhyrchu pren a chynhyrchion pren a chorc (SIC 16) | 250 |
| Gweithgynhyrchu papur a chynhyrchion papur (SIC 17) | 365 |
| CYFANSWM | 665 |

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o Fusnesau, Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a Chyfrifon Rhanbarthol, ONS, gan ddefnyddio Dosbarthiadau Diwydiannol Safonol y DU


### Siart 31:
### Newid dros amser mewn Gwerth Ychwanegol Gros (GYG)




Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o Fusnesau, Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a Chyfrifon Rhanbarthol, Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae’r siart isod yn dangos GVA y sector coedwigaeth yng Nghymru o gymharu â’r DU yn gyffredinol, gan ddefnyddio 2005 fel blwyddyn sylfaen.

## Siart 32:
## Gwerth Ychwanegol Gros (GYC) y sector coedwigaeth yng Nghymru o'i gymharu â'r DU (2005 = 1.0)




Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o Fusnesau, Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a Chyfrifon Rhanbarthol, Swyddfa Ystadegau Gwladol

## Perthnasedd

Un o ganlyniadau dymunol y strategaeth yw bod y sector coedwigaeth yn cael ei integreiddio’n well, a’i fod yn fwy cystadleuol ac yn cefnogi economi Cymru. Mae’r dangosydd hwn yn edrych ar gyfraniad y sector coedwigaeth i economi Cymru, gan ddefnyddio amcangyfrifon o Werth Ychwanegol Gros o’r data a ddarparwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

## Nodiadau

Dylid nodi y gellid ystyried bod busnesau eraill nad ydynt yn rhan o’r sectorau uchod yn rhai sy’n cael eu cynnal yn llawn neu’n rhannol gan goedwigaeth hefyd. Fodd bynnag, nid yw’r dosbarthiadau SIC a ddefnyddir ar hyn o bryd yn caniatáu inni gynnwys y busnesau hynny. Yn arbennig, nid oes amcangyfrif o GVA busnesau hamdden sy’n dibynnu ar goetiroedd ar gael.

Defnyddiwyd methodoleg newydd i gyfrifo’r ffigurau yn adroddiad 2013-14, ac felly ni ddylid cymharu’r ffigurau hyn (a ffigurau yn y dyfodol) â’r ffigurau mewn adroddiadau cyn 2013-14.




Pennod 16:
# Y galw am bren

## Pwyntiau allweddol

- Mae defnydd ymddangosol y DU o bren cyfwerth â 57 miliwn m3 o ddeunyddiau pren crai yn 2017.
- Mae defnydd ymddangosol y DU o bren yn 2017 wedi gostwng ers 2004
- Mae defnydd ymddangosol y DU o bapur wedi gostwng ar y cyfan ers 2002, a hyn yn bennaf oherwydd y gostyngiad yn y defnydd o bapur graffig.

## Data

## Siart 33: Defnydd ymddangosol y DU o bren




Ffynhonnell: Ystadegau Coedwigaeth

Defnydd ymddangosiadol yw cynhyrchu plws mewnforion minws allforion.

## Tabl 18:
## Defnydd ymddangosiadol yn y DU yn ôl y math o gynnyrch (mil $m^3$)

| Blwyddyn | 2002 | 2003 | 2004 | 2005 | 2006 | 2007 | 2008 | 2009 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pren wedi'i lifo | 10,518 | 11,092 | 11,059 | 10,655 | 10,278 | 10,717 | 8,482 | 7,908 |
| Pren haenog | 1,082 | 1,188 | 1,385 | 1,302 | 1,371 | 1,555 | 1,431 | 1,098 |
| Bwrdd gronynnau | 3,372 | 3,502 | 3,670 | 3,513 | 3,414 | 3,717 | 2,720 | 2,756 |
| Bwrdd ffibrau | 1,660 | 1,616 | 1,729 | 1,566 | 15,06 | 1,627 | 1,269 | 1,212 |
| Cyfanswm | 16,632 | 17,398 | 17,843 | 17,036 | 16,569 | 17,616 | 13,902 | 12,974 |
| | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
| Pren wedi'i lifo | 8,605 | 8,041 | 8,448 | 8,911 | 10,013 | 9,629 | 10,125 | 11,435 |
| Pren haenog | 1,190 | 1,259 | 1,231 | 1,316 | 1,328 | 1,422 | 1,413 | 1,445 |
| Bwrdd gronynnau | 2,965 | 3,025 | 2,492 | 2,837 | 3,081 | 3,127 | 3,256 | 3,202 |
| Bwrdd ffibrau | 1,381 | 1,357 | 1,314 | 1,388 | 1,494 | 1,449 | 1,435 | 1,559 |
| Cyfanswm | 14,141 | 13,252 | 13,504 | 14,474 | 15,937 | 15,639 | 16,252 | 17,676 |

Ffynhonnell: Ystadegau Coedwigaeth

## Tabl 19:
## Defnydd ymddangosiadol y DU o bapur (miloedd o dunelli)

| Blwyddyn | 2002 | 2003 | 2004 | 2005 | 2006 | 2007 | 2008 | 2009 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Papur graffeg (gan gynnwys papur newydd) | 6,847 | 6,641 | 7,270 | 7,080 | 7,540 | 7,251 | 6,690 | 5761 |
| Papurau glanweithiol | 907 | 917 | 935 | 928 | 935 | 973 | 913 | 1065 |
| Deunyddiau pacio | 3,603 | 3,241 | 3,307 | 3,164 | 3,287 | 3,535 | 3,424 | 3,325 |
| Papur/byrddau papur arall | 597 | 1094 | 624 | 631 | 583 | 383 | 347 | 266 |
| Cyfanswm | 11,954 | 11,893 | 12,136 | 11,083 | 12,345 | 12,147 | 11,374 | 10,417 |
| | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
| Papur graffeg (gan gynnwys papur newydd) | 5,351 | 5,646 | 4,685 | 4,488 | 4,455 | 4,134 | 3,837 | 3,469 |
| Papurau glanweithiol | 886 | 1,129 | 1,133 | 1,159 | 988 | 999 | 1,089 | 1,109 |
| Deunyddiau pacio | 3,341 | 3,280 | 3,327 | 3,442 | 3,568 | 3,670 | 3,644 | 3,808 |
| Papur/byrddau papur arall | 325 | 199 | 247 | 273 | 316 | 281 | 291 | 285 |
| Cyfanswm | 9,903 | 10,254 | 9,392 | 9,362 | 9,327 | 9,084 | 8,861 | 8,671 |

Ffynhonnell: Ystadegau Coedwigaeth
* Mae defnydd ymddangosiadol y DU ar gyfer 2015 yn nodi un ffigwr ar gyfer ‘papur graffeg’ a ‘papur newydd’; er mwyn cymharu mae ffigurau’r flwyddyn flaenorol wedi’u cyfuno

## Perthnasedd

Un o ganlyniadau dymunol y strategaeth yw sicrhau defnydd cynyddol o bren fel ffynhonnell adnewyddadwy allweddol. Mae'r dangosydd hwn yn monitro'r galw am gynhyrchion pren yn y DU; nid oes data ar gyfer Cymru ar gael ar hyn o bryd.



# Pennod 17:
# Iechyd busnesau yn y sector coedwigaeth

## Pwyntiau allweddol

Mae'r dangosydd hwn wrthi'n cael ei ddatblygu.

## Data

Mae'r dangosydd hwn wrthi'n cael ei ddatblygu.

## Perthnasedd

Dau o ganlyniadau dymunol y strategaeth yw bod yna weithlu ffyniannus, crefftus yn y sector coedwigaeth a bod y sector coedwigaeth yn cael ei integreiddio'n well ac yn fwy cystadleuol, gan gefnogi economi Cymru.

Mae'r dangosydd hwn yn ystyried iechyd y sector coedwigaeth o ran gobeithion, rhwystrau a chyfleoedd busnes.

Daw'r data o arolwg Comisiwn Coedwigaeth Cymru o fentrau coedwigaeth, a gynhaliwyd yn 2010.



# Pennod 18:
# Cynefinoedd coetiroedd a choed hynafol

## Pwyntiau allweddol

- Mae'r sefyllfa bresennol o ran nodweddion coetiroedd mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC) yn un anffafriol yn bennaf.

## Data

### a) Arwynebedd y coetiroedd hynafol ac arwynebedd y planhigfeydd a adferwyd ar safleoedd coetir hynafol (PAWS)

Ym 1997, roedd 109,500 hectar o goetiroedd brodorol yng Nghymru, yn ôl y Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed. Yn 2011 gwnaeth y Rhestr Coetiroedd Hynafol nodi bod 95,000ha o goetir hynafol yng Nghymru, o'i gymharu â'r 62,000ha a nodwyd yn Rhestr Coetiroedd Hynafol 2004.

Mae'r arwynebedd Coetiroedd Hynafol yn Rhestr Coetiroedd Hynafol 2011 yn 33,000ha (53 y cant) yn fwy na'r hyn a nodwyd yn Rhestr Coetiroedd Hynafol 2004. Mae'r rhan fwyaf o'r ffigur diwygiedig yn cynnwys Coetiroedd Hynafol a Lled-naturiol mewn perchenogaeth breifat (29,000ha).

### b) Gwella cyflwr coetiroedd brodorol

## Tabl 20:
## Cyflwr coetiroedd brodorol

| Dangosydd cyflwr | Gwerth | Sylw |
|---|---|---|
| Arwynebedd cymedrig gorchudd o lwyni fel canran o goetir brodorol | 30 | Rydym yn disgwyl i hwn aros yn sefydlog neu gynyddu yn y tymor hir. Mae arwynebedd cymedrig llwyni yng Nghymru yn uwch na'r hyn a gofnodwyd yn yr Alban, yn sgil llai o bwysau pori o bosibl. |
| Nifer cymedrig y rhywogaethau coed/llwyni fesul chwarter hectar o goetir brodorol | 4.27 | Rydym yn disgwyl i hwn aros yn sefydlog neu gynyddu yn y tymor hir. |
| Cyfaint cymedrig y pren marw mewn coetir brodorol (m3 yr hectar) | 0.6 | Mae hwn llawer is na'r cyfaint o 20m3 yr hectar sy'n ofynnol i gydymffurfio â Safon Sicrwydd Coetiroedd y DU, a hefyd yn is na'r 4.4m3 yr hectar a gofnodwyd ar gyfer yr Alban. |
| Canran y<br>(i) coetir brodorol<br>(ii) coetir derw sy'n hen dyfiant | (i) 23<br>(ii) 39 | Yn y tymor hir, disgwylir y bydd cynnydd yng nghyfran y coetiroedd brodorol a fydd yn dod o dan y categori hen dyfiant. Er hynny, gallai plannu ardaloedd eang o goetiroedd brodorol newydd achosi i'r gyfran ostwng yn y tymor byr i ganolig. |

Ffynhonnell: Dadansoddiad o ddata'r Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed

## c) Gwella cyflwr coetiroedd ar safleoedd dynodedig

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn monitro cyflwr nodweddion coetiroedd mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yng Nghymru. Nodweddion coetiroedd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yw'r rhywogaethau neu'r cynefinoedd ategol sy'n rhesymau dros ddynodi safle yn Ardal Cadwraeth Arbennig. Gallai nodweddion coetiroedd fod yn rhywogaethau sy'n dibynnu ar goetir neu fath o goetir sy'n gynefin ategol neu'n gynefin pwysig ar lefel Ewropeaidd.

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwybodaeth am yr asesiad cyflwr diweddaraf ar gyfer pob safle ac ar gyfer asesiadau cyflwr a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ionawr 2012 a 31 Rhagfyr 2017. Mae'n bosib bod cyfnod sylweddol rhwng cwblhau'r gwaith monitro a'r gwaith cofnodi terfynol o gyflwr nodwedd, gan olygu y gallai'r data newid wrth i asesiadau terfynol gael eu cwblhau.

### Tabl 21:
### Cyflwr nodweddion Ardaloedd Cadwraeth Arbennig coetiroedd yng Nghymru*

| | Asesiadau mwyaf diweddar | | | | Asesiadau 2012-17 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer y nodweddion | % o'r nodweddion | Arwynebedd Ha | % o'r Arwynebedd | Nifer y nodweddion | % o'r nodweddion | Arwynebedd Ha | % o'r Arwynebedd |
| Ffafriol: Wedi'i gynnal | 8 | 17 | 126 | 2 | 7 | 15 | 119 | 2 |
| Ffafriol: Wedi'i adfer | 2 | 4 | 38 | 1 | 2 | 4 | 38 | 1 |
| Ffafriol: Diddosbarth | 2 | 4 | 97 | 2 | 1 | 2 | 44 | 1 |
| Cyfanswm: Ffafriol | 12 | 26 | 260 | 4 | 10 | 21 | 200 | 3 |
| Anffafriol: Yn cael ei adfer | 3 | 6 | 521 | 9 | 2 | 4 | 303 | 5 |
| Anffafriol: Yn dirywio | 3 | 6 | 273 | 4 | 1 | 2 | 60 | 1 |
| Anffafriol: Dim newid a diddosbarth | 29 | 62 | 5,105 | 83 | 22 | 47 | 2,447 | 40 |
| Cyfanswm: Anffafriol | 35 | 74 | 5,898 | 96 | 25 | 53 | 2,809 | 46 |
| Heb ei asesu | 0 | 0 | 0 | 0 | 17 | 36 | 2,941 | 49 |
| Cyfanswm: ffafriol ac anffafriol sy'n cael eu hadfer | 17 | 36 | 856 | 14 | 13 | 28 | 684 | 11 |
| Cyfanswm: Anffafriol: diddosbarth, dim newid ac yn dirywio | 30 | 64 | 5,302 | 86 | 17 | 36 | 4,384 | 71 |
| Cyfanswm | 47 | 100 | 6,158 | 100 | 35 | 74 | 3,010 | 49 |

Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru

* Nodiadau i Dabl 19: (a) caiff cynefinoedd eu hasesu a chyflwr ei neilltuo iddynt yn ôl nodwedd, gyda phob arwynebedd cynefin benodol ar safle benodol yn dod o dan y cyflwr cyffredinol hwnnw; (b) mae'r dosbarthiadau "anffafriol dim newid" ac "anffafriol diddosbarth" wedi eu cyfuno yn y tabl; ac mae (c) y cyfnod asesu 2010-15 yn rhedeg o 1 Ionawr 2012 tan 31 Rhagfyr 2017.

## Perthnasedd

Mae'r dangosydd hwn yn olrhain arwynebedd a chyflwr coetir brodorol yng Nghymru, a chyflwr y coetir ar safleoedd dynodedig neu hynafol. Dyma ganlyniadau dymunol perthnasol y strategaeth:

- Bod bioamrywiaeth coetiroedd yn cael ei chynnal, a choetiroedd brodorol yn cael eu rheoli'n ffafriol
- Bod coetiroedd a choed o werth cadwraeth arbennig yn cael eu rheoli'n ffafriol
- Bod dulliau rheoli coetiroedd yn cyrraedd safonau uchel o ran stiwardiaeth amgylcheddol

Dyma'r tueddiadau dymunol ar gyfer y dangosydd hwn felly:

a. Cynyddu arwynebedd y coetiroedd brodorol
b. Gwella cyflwr coetiroedd brodorol
c. Gwella cyflwr coetiroedd ar safleoedd dynodedig
d. Cynyddu arwynebedd y Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol (PAWS) sydd naill ai wedi'u hadfer neu wrthi'n cael eu hadfer.



# Pennod 19:
# Rhywogaethau coetiroedd

## Pwyntiau allweddol

- Mae niferoedd adar y coetir yng Nghymru yn codi a gostwng, ond mae'r niferoedd wedi cynyddu ychydig ers 1994.

## Data

### a) Tueddiadau poblogaeth rhywogaethau o'r pwysigrwydd pennaf

Mae Adran 42 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 yn rhestru rhywogaethau o'r pwysigrwydd pennaf er cadwraeth amrywiaeth fiolegol yng Nghymru. Roedd gwaith gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru yn dangos bod 210 o'r 542 o rywogaethau sydd ar restr Adran 42 yn dibynnu naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol ar gynefinoedd coetiroedd, neu y gallai gwaith coedwigaeth effeithio arnynt. Mae 26 ohonynt yn cael eu hystyried yn flaenoriaeth uchel. Adroddir am dueddiadau poblogaeth y rhywogaethau hyn yng nghyfnodau adrodd Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU.

Mae'r tabl isod yn dangos y tueddiadau ar gyfer y rhywogaethau y mae gwybodaeth ar gael amdanynt. Dim ond ar gyfer ychydig o rywogaethau y mae gwybodaeth ar gael hyd yma (rhwng 12 a 26 allan o 210).

## Tabl 22:
## Pob rhywogaeth â blaenoriaeth

| Cyfnod adrodd | 1999 | 2002 | 2005 | 2008 |
|---|---|---|---|---|
| Cynyddu | 3 | 5 | 4 | 4 |
| Gostwng | 7 | 8 | 9 | 10 |
| Sefydlog neu ddim tuedd amlwg | 2 | 8 | 13 | 12 |
| Anhysbys | 198 | 189 | 184 | 184 |

Ffynhonnell: Adrodd ar Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth y DU

Mae'r tabl isod yn dangos tueddiadau ar gyfer rhywogaethau â blaenoriaeth uchel yn unig. Unwaith eto, dim ond gwybodaeth am gyfran fach o rywogaethau sydd ar gael.

## Tabl 23:
## Rhywogaethau â blaenoriaeth uchel


| Cyfnod adrodd | 1999 | 2002 | 2005 | 2008 |
|---|---|---|---|---|
| Cynyddu | 2 | 4 | 3 | 3 |
| Gostwng | 2 | 4 | 3 | 2 |
| Sefydlog neu ddim tuedd amlwg | 1 | 1 | 3 | 3 |
| Anhysbys | 21 | 17 | 17 | 18 |

Ffynhonnell: Adrodd ar Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth y DU

## b) Mynegai adar y coetir

Mae'r siart isod yn dangos y newid yn nifer y rhywogaethau adar ers 1994, sy'n dangos bod niferoedd adar y coetir wedi cynyddu ychydig.

### Siart 34:
### Nifer y rhywogaethau adar yn ôl cynefin




Ffynhonnell: Data o'r Arolwg Adar sy'n Bridio a gynhaliwyd gan Gymdeithas Adareg Prydain a'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar

O'r 29 rhywogaeth o adar y coetir a geir yn y siart uchod, roedd 24 hefyd yn ymddangos yn yr Arolwg Adar sy'n Bridio. Gellir defnyddio'r arolwg hwnnw i weld tueddiadau poblogaeth ar gyfer nifer o rywogaethau o adar gwyllt sy'n dyddio nôl i'r 1990au. Mae Tabl 35 yn dangos y tueddiadau yn Arolwg Adar sy'n Bridio yn y DU ac yng Nghymru ac yn dangos hefyd ganlyniadau'r gwaith rhyddhau Adar o Bryder Cadwraethol yng Nghymru 3. Mae'r rhestr Coch, Ambr neu Wyrdd, yn dangos lefel y flaenoriaeth a roddir i warchod y poblogaethau hyn.

## Tabl 24
## Tueddiadau poblogaeth adar y coetir yn y DU ac yng Nghymru*

| | Arolwg Adar sy'n Bridio yn y DU Newid % yn y Duedd (1970-2015) | Arolwg Adar sy'n Bridio yn y DU Newid % yn y Duedd (1995-2016) | Arolwg Adar sy'n Bridio yng Nghymru Newid % yn y Duedd | Adar o Bryder Cadwraethol yng Nghymru 3 Statws blaenoriaeth (2016) |
|---|---|---|---|---|
| Aderyn du | -16 | 24 | 40 | |
| Dryw | 68 | 40 | 36 | |
| Ji-binc | 21 | 8 | 12 | |
| Robin | 55 | 31 | 19 | |
| Titw Tomos las | 21 | -3 | 0 | |
| Titw mawr | 81 | 30 | 22 | |
| Y Fronfraith | -50 | 32 | 35 | |
| Telor yr helyg | -44 | -9 | -9 | |
| Llwyd y gwrych | -29 | 23 | 37 | |
| Siff-siaff | 104 | 125 | 74 | |
| Telor penddu | 289 | 143 | 139 | |
| Dryw eurben | -15 | 20 | -32 | |
| Cnocell fraith fwyaf | 349 | 126 | 180 | |
| Sgrech y coed | 8 | 14 | 31 | |
| Titw penddu | 16 | -3 | -27 | |
| Delor y cnau | 252 | 87 | 38 | |
| Coch y berllan | -39 | 16 | 6 | |
| Tingoch | 72 | 31 | 22 | |
| Titw cynffon-hir | 98 | 21 | 33 | |
| Telor yr ardd | -10 | -25 | -26 | |
| Cnocell werdd | 100 | 28 | -15 | |
| Dringwr bach | -10 | 7 | 35 | |
| Corhedydd y coed | -69 | 3 | -18 | |
| Pila gwyrdd | - | 44 | 83 | |

*Adar y coetir a wnaeth ymddangos yn nhabl 35 ond nid yn nhabl 34 oedd y llinos bengoch fechan, y gwybedog brith, y gwybedog mannog, y gwalch glas a thelor y coed.

## Perthnasedd

Mae'r dangosydd hwn yn olrhain tueddiadau poblogaeth ymhlith rhywogaethau sy'n gysylltiedig â choetiroedd sydd wedi'u rhestru yn Adran 42 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006: Rhywogaethau o'r pwysigrwydd pennaf er cadwraeth amrywiaeth fiolegol yng Nghymru. Mae hefyd yn ystyried tueddiadau poblogaeth ymhlith amrywiaeth o adar y coetir.

Un o ganlyniadau dymunol y strategaeth yw bod bioamrywiaeth coetiroedd yn cael ei chynnal, a bod coetiroedd brodorol yn cael eu rheoli'n ffafriol. Y duedd ddymunol ar gyfer y dangosydd hwn felly yw bod llai o rywogaethau'n gweld gostyngiad yn eu poblogaeth a mwy o rywogaethau'n gweld cynnydd yn eu poblogaeth.



# Pennod 20:
# Cysylltiadau

## Pwyntiau allweddol

- Mae'r dangosydd hwn wrthi'n cael ei ddatblygu

## Data

Mae'r dangosydd hwn wrthi'n cael ei ddatblygu

## Perthnasedd

Un o amcanion y strategaeth hon yw diogelu strwythur rhwydweithiau cynefinoedd coetiroedd, diogelu'r modd y maent yn gweithredu a, lle bo angen, dadwneud sefyllfaoedd lle cafodd cynefinoedd lled-naturiol eu darnio. Mae'r dangosydd hwn yn monitro arwynebedd a'r math o goetir mewn parthau rhwydwaith allweddol.



# Pennod 21:
# Coetiroedd yn rhoi pwysau ar ddŵr

## Pwyntiau allweddol


- Mae'r dangosydd hwn wrthi'n cael ei ddatblygu.

## Data

Mae'r dangosydd hwn wrthi'n cael ei ddatblygu.

## Perthnasedd

Un o ganlyniadau dymunol y strategaeth yw fod coetiroedd newydd a phresennol yn cyfrannu at reoli dŵr a rheoli pridd, gan leihau effaith andwyol coetir ar ansawdd dŵr.



# Pennod 22:
# Coetiroedd fel ateb wrth reoli dŵr

## Pwyntiau allweddol

- Mae'r dangosydd hwn wrthi'n cael ei ddatblygu.

## Data

Mae'r dangosydd hwn wrthi'n cael ei ddatblygu.

## Perthnasedd

Un o ganlyniadau dymunol y strategaeth yw bod coetiroedd newydd a rhai sy'n bodoli eisoes yn cyfrannu at reoli dŵr a phridd, trwy leihau llygredd gwasgaredig ac erydiad pridd a helpu i leihau peryglon llifogydd. Y tueddiadau dymunol yw gweld:

- Rhagor o ardaloedd ar lannau afonydd o dan goetir priodol.
- Mwy o goetiroedd priodol o fewn parthau dynodedig â blaenoriaeth er mwyn rheoli peryglon llifogydd.



# Pennod 23:
# Treftadaeth a thirwedd

## Pwyntiau allweddol

- Gwaith adrodd newydd ar gyfer y dangosydd hwn.
- Mae'r canrannau a adroddir yn ymwneud ag ardaloedd â chymeriad tirwedd sy'n gysylltiedig yn benodol â choetiroedd ac felly nid ydynt yn gysylltiedig yn uniongyrchol â'r cyfanswm o 13% o orchudd coetiroedd yng Nghymru.

## Perthnasedd

Un o ganlyniadau dymunol y strategaeth yw bod coetiroedd a choed:

- yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i gymeriad arbennig tirwedd Cymru ac i safleoedd sydd o bwys o ran treftadaeth a diwylliant
- wedi'u cynllunio i gydweddu â graddfa, patrwm a golygfeydd pwysig y dirwedd sydd o'u hamgylch.

Mae **LANDMAP** yn adnodd System Gwybodaeth Ddaearyddol Cymru gyfan lle y caiff nodweddion, rhinweddau a dylanwadau tirwedd eu cofnodi a'u gwerthuso mewn set ddata sy'n gyson yn genedlaethol. Mae LANDMAP yn cynnwys pump o setiau data sy'n gysylltiedig yn ofodol â'r setiau data Gweledol a Synhwyraidd, Cynefinoedd Tirwedd a Thirweddau Hanesyddol yw'r rhai mwyaf perthnasol ar gyfer y dangosydd hwn.

Mae'r set ddata **Gweledol a Synhwyraidd LANDMAP** yn cofnodi'r hyn a ganfyddir o briodoleddau ffisegol y tirffurf a'r gorchudd tir, eu patrymau dosbarthiad gweladwy a'u cydrannau a nodweddion cysylltiedig. Ceir crynodeb o gofnodion set ddata Gweledol a Synhwyraidd perthnasol yn Nhabl 24.

## Tabl 25:
## Ardaloedd â chymeriad Gweledol a Synhwyraidd lle mae'r patrwm gorchudd tir amlycaf yn cynnwys coetiroedd

| Ardaloedd â chymeriad Gweledol a Synhwyraidd gyda choetiroedd yn batrwm gorchudd tir amlycaf | **Coetir** Yr holl dir coediog sylweddol, >70% gorchudd coed | **Patrwm cae / Mosaig** Yr holl dir â system cae amaethyddol adnabyddadwy, gyda ffiniau sylweddol, gan gynnwys coetiroedd bach (<10ha), 20-50% gorchudd coed |
|---|---|---|
| Ardal a % o'r categorïau hyn o dirwedd | 165,000 ha (8%) | 1,239,900 ha (59%) |
| **Eithriadol** (wedi'i werthuso o bwys cenedlaethol) | 5,700 ha (3%) | 50,700 ha (22%) |
| **Uchel** (wedi'i werthuso o bwys rhanbarthol) | 52,600 ha (6%) | 467,700 ha (56%) |
| **Cymedrol** (wedi'i werthuso o bwys lleol) | 94,100 ha (10%) | 716,800 ha (75%) |
| **Isel** (wedi'i werthuso o ychydig bwys/heb unrhyw bwys o ran termau Gweledol a Synhwyraidd) | 12,700 ha (13%) | 4,700 ha (5%) |

- Mae coed a choetiroedd yn elfennau pwysig o 67% o dirweddau Cymru.
- Mae 518,400 ha o dirweddau Mosaig a 58,300 ha o dirweddau Coetiroedd wedi'u gwerthuso fel rhai eithriadol ac uchel. Dylem geisio cynnal a chadw a gwella'r tirweddau pwysig hyn gan eu bod yn cynnwys nodweddion o werth cenedlaethol a rhanbarthol.
- Mae Arolwg Barn y Cyhoedd ar Goedwigaeth 2015 yn nodi bod 64% o oedolion a holwyd yng Nghymru wedi ymweld â choetiroedd ar gyfer gweithgareddau hamdden yn ystod y 12 mis diwethaf, gwnaeth dau draean (64%) ymweld â choetiroedd yng nghefn gwlad (Dangosyddion

Coetiroedd i Gymru 2015-16). Mae coetiroedd sy'n atyniadol yn esthetig yn gwneud cyfraniad pwysig i gymeriad tirwedd a phrofiad hamdden o fewn y coetir a'r dirwedd ehangach.

- Cafodd 810,900 ha o dirweddau Coetiroedd a Mosaig eu gwerthuso fel rhai Cymedrol yn y set ddata Gweledol a Synhwyraidd. Mae coed a choetiroedd yn debygol o gael eu hintegreiddio'n dda yn y tirweddau hyn sy'n bwysig yn lleol.
- Mae 12,700 ha o dirweddau Coetir wedi'u gwerthuso fel rhai sy'n isel o ran cymeriad ac ansawdd y dirwedd ac yn gwneud cyfraniad cadarnhaol prin i gymeriad gweledol y dirwedd a'r ymdeimlad o le. Gellir gwneud gwelliannau drwy weithredu egwyddorion cynllunio coedwig da ac ystyried cymeriad tirwedd yn ystod gweithrediadau cynllunio a rheoli yn unol â Safon Coedwigaeth y DU (UKFS). Mae coetiroedd gerllaw cymunedau o bosibl yn lleoliadau da ar gyfer gwella nodweddion tirweddau coetiroedd.
- Mae coed llydanddail sydd wedi cymryd lle coed conwydd ar ymyl cymoedd amlwg, gerllaw prif ffyrdd, llwybrau a chyfleusterau hamdden ac mewn ardaloedd cwympo coed yn sgil Phytophthera ramorum yn newid tirwedd y coetiroedd.
- Mae dyheadau ar gyfer cynyddu gorchudd coetir yn debygol o gael effaith sylweddol ar dirweddau Cymru gyda newidiadau o fosaig caeau i goetiroedd yn debygol. Dylid bod yn ofalus o ran sicrhau bod y gwaith plannu newydd yn creu tirweddau o ansawdd uchel ac yn cynnal a chadw nodweddion tirwedd pwysig presennol.

Mae'r cofnodion set ddata **Cynefinoedd Tirwedd LANDMAP** yn cofnodi ecosystemau a chynefinoedd eang, gan gynnwys 'Coetiroedd a phrysgwydd'. Gall gwaith rheoli cynefinoedd a gorchudd llystyfiant lled naturiol ddylanwadu ar amrywiaeth tirwedd, bioamrywiaeth, gorchudd tir, y mwynhad a geir o ardaloedd gwledig a'u defnydd. Mae Tabl 25 yn crynhoi data perthnasol sy'n deillio o set ddata Cynefinoedd Tirwedd.

## Tabl 26:
## Ardaloedd â chymeriad Cynefinoedd Tirwedd a ddosbarthwyd fel Coetiroedd a Phrysgwydd

| Ardaloedd â chymeriad Cynefinoedd Tirwedd â dosbarthiad Coetir* | Coetir a phrysgwydd (>75% o orchudd) 160,918 ha* (8%) (79% coed conwydd, 21% coed llydanddail a choed cymysg) | | |
|---|---|---|---|
| | Coed conwydd | Coed llydanddail | Coed cymysg |
| *Mae 1,153 ha wedi'u dosbarthu'n brysgwydd, parcdir a choed gwasgaredig yn ogystal â choetir lle y cafodd coed eu cwympo'n ddiweddar. Mae coetiroedd a phrysgwydd hefyd yn cael eu cynnwys mewn mosaig daearol sych. Nid adroddir am hyn yma. | 126,474 ha | 22,646 ha | 10,645 ha |
| **Eithriadol** (wedi'i werthuso yn fath cynefin o bwys cenedlaethol / gallai fod wedi'i ddynodi'n Ardaloedd Cadwraeth Arbennig) | 2,000 ha | 7,300 ha | 300 ha |
| **Uchel** (wedi'i werthuso'n fath cynefin o bwys rhanbarthol, gallai gynnwys ardal fawr o SoDdGA neu ansawdd tebyg) | 26,100 ha | 12,200 ha | 6,400 ha |
| **Cymedrol** (wedi'i werthuso o bwys lleol, gallai fod yn Warchodfa Natur Lleol neu'n cynnwys coridorau cynefin pwysig) | 63,700 ha | 3,000 ha | 3,900 ha |
| **Isel** (wedi'i werthuso o ychydig bwys/heb unrhyw bwys) | 34,700 ha | 0 | 0 |

- Mae 54,300 ha o dirweddau coetir a phrysgwydd wedi'u gwerthuso'n eithriadol ac uchel. Dylem geisio cynnal a gwella'r cynefinoedd tirwedd pwysig hyn o werth cadwraeth uchel.
- Cafodd bron i 45% o gynefinoedd coetir a phrysgwydd eu gwerthuso'n Gymedrol, dyma'r tirweddau sy'n cynnwys cynefinoedd o bwys lleol. Gallai rhai o'r rhain fod wedi'u dynodi'n Warchodfeydd Natur Lleol neu'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwarchod Natur, gallent hefyd fod yn goridorau adnoddau pwysig. Mae cyfran fawr yn goed conwydd.
- Mae cynefinoedd tirweddau coed llydanddail yn cael eu cydnabod yn bennaf fel rhai sydd o bwys cenedlaethol neu ranbarthol.
- Yn unigryw, dim ond tirweddau coed conwydd sy'n cael eu gwerthuso'n rhai sy'n brin o safbwynt eu gwerth fel cynefinoedd.

Mae'r set ddata **Tirwedd Hanesyddol LANDMAP** yn nodi defnydd, patrymau a nodweddion tir hanesyddol sy'n strwythurol amlwg ac yn cyfrannu at gymeriad hanesyddol cyffredinol y dirwedd bresennol. Mae Tabl 26 yn crynhoi'r data perthnasol sy'n deillio o'r set ddata Tirwedd Hanesyddol.

## Tabl 27:
## Ardaloedd â chymeriad Tirwedd Hanesyddol a ddosbarthwyd yn Goetir

| Ardaloedd â chymeriad Tirwedd Hanesyddol â dosbarthiad Coetir | Coetir |
|---|---|
| % ac ardal o dirweddau yng Nghymru | 6% (124,500 ha) |
| **Eithriadol** (wedi'i werthuso o bwys cenedlaethol) | 18,700 ha |
| **Uchel** (wedi'i werthuso o bwys rhanbarthol) | 1,043,900 ha |
| **Cymedrol** (wedi'i werthuso o bwys lleol) | 306,500 ha |
| **Isel** (wedi'i werthuso i fod heb unrhyw werth cynhenid/o werth cynhenid prin i'r Dirwedd Hanesyddol) | 60,000 ha |

- Mae coetiroedd yn gwneud cyfraniad cadarnhaol iawn i gymeriad tirwedd Cymru gan fod safleoedd sydd o bwys o ran treftadaeth a diwylliant yn cael eu hadlewyrchu yn yr 1,062,600 hectar sy'n cael ei werthuso'n uchel ac yn eithriadol o ran eu cywirdeb hanesyddol, eu goroesiad, eu cyflwr, eu prinder, a'u potensial.
- Coetir yw'r dosbarthiad Tirwedd Hanesyddol mwyaf sylweddol nesaf yn ôl ardal yng Nghymru ar ôl Tirweddau sy'n cynnwys caeau (rheolaidd, afreolaidd ac eraill) a Thir Ffiniol.
- Gallai coetiroedd fod â chysylltiadau pwysig fel safleoedd coetiroedd hanesyddol (gweler dangosydd 18).
- Mae Safonau Coedwigaeth y DU yn cydnabod y dylai'r nodweddion hyn gael eu cynnal a'u cadw ar gyfer y dyfodol ac na ddylid eu niweidio gan weithrediadau coedwigaeth, a bod angen '*ystyried cadwraeth a gwella tirweddau hanesyddol a diwylliannol*'.

## Coetiroedd a Threftadaeth

Gallai coetiroedd gynnwys asedau hanesyddol pwysig a thystiolaeth o waith rheoli yn y gorffennol. Mae asedau hanesyddol yn cyfrannu at nodweddion, hunaniaeth ac ymdeimlad o le nodedig. Mae asedau hanesyddol o bwys lleol, ac mae llawer o bwys cenedlaethol i dreftadaeth ddiwylliannol Cymru.

## Tabl 28:<br>Coetiroedd a Threftadaeth

| Asedau hanesyddol yng nghoetiroedd y Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol (2017)<br>Mae'r categori 'coetir' yn cynnwys coed ifanc, coed a chwythwyd gan y gwynt, coed a gwympwyd, coed cymysg o goed conwydd yn bennaf, coed cymysg o goed llydanddail yn bennaf, dwysedd isel, coetir tybiedig, coed llydanddail, coed conwydd a phrysgwydd. | | Asedau hanesyddol mewn coetiroedd neu'n gorgyffwrdd â choetiroedd | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Nifer | % | Arwynebedd |
| Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol (HER) | Pwyntiau | 35,222 | 13% | - |
| | Polygonau | 24 | 2% | 254 ha |
| | Llinellau | 3 | 5% | |
| Henebion Rhestredig | | 1,042 | 25% | 829 ha |
| Adeiladau Rhestredig | | 1,043 | 4% | - |
| Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig | | 332 | 86% | 6,433 ha |
| Cofrestr o Dirweddau Hanesyddol | | 57 | 98% | 48,753 ha |

- Mae dros 35,000 o Gofnodion Amgylchedd Hanesyddol (13%) yng nghoetiroedd Cymru. Dylai gweithrediadau coetir (gan gynnwys gwaith plannu newydd, camau rheoli, mynediad a chwympo coed) gael eu cynllunio i gyfyngu ar y risgiau i asedau hanesyddol a chadw eu gwerth o ran diwylliant a threftadaeth.
- Mae 25% sylweddol o Henebion Rhestredig wedi'u lleoli mewn coetiroedd. Gallai rheoli coetiroedd gynnig cyfleoedd cadarnhaol i asedau hanesyddol drwy gamau gweithredu megis cael gwared ar goed a phrysgwydd niweidiol, gwella mynediad hamdden ac agor y golygfeydd tuag at henebion yn y dirwedd.
- Mae coetiroedd yn cael eu cynnwys yn y rhan fwyaf o Barciau a Gerddi Cofrestredig Arbennig ac Eithriadol (86%) a Thirweddau Hanesyddol Cofrestredig (98%).
- Mae ystad Goetir Llywodraeth Cymru yn unig yn cynnwys 207 o Henebion Rhestredig, 44 o Adeiladau Rhestredig, 7,663 o Gofnodion Amgylchedd Hanesyddol ac mae'n gysylltiedig â 27 o Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig.

Mae Dangosydd 18: Cynefinoedd coetiroedd a choed hynafol yn trafod gwaith monitro safleoedd coetir hynafol, nodweddion llinellol tir pori coetir hynafol a choed hynafol.

Mewn ychwanegiadau at yr adroddiad hwn yn y dyfodol, bydd gwybodaeth ychwanegol yn cael ei chynnwys i adrodd yn erbyn y dangosydd hwn.

## Perthnasedd

Un o ganlyniadau dymunol y strategaeth yw bod coetiroedd a choed yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i gymeriad tirwedd arbennig Cymru, ac i safleoedd sy'n bwysig o safbwynt treftadaeth a diwylliant. Mae Dangosydd 18: Cynefinoedd coetiroedd a choed hynafol yn trafod gwaith monitro safleoedd coetir hynafol, nodweddion llinellol a choed hynafol.

Bydd y dangosydd treftadaeth a thirwedd hwn yn canolbwyntio'n benodol ar:

- Y math o goetir o fewn tirweddau hanesyddol, a'r dulliau o'i reoli.
- Maint a chyflwr y coetir pori hynafol yng Nghymru.



# Crynodeb

# Tabl dangosyddion Coetiroedd i Gymru

| Dangosydd | Disgrifiad | Tuedd Ddymunol | Tuedd Wirioneddol | Canlyniadau cysylltiedig yn y strategaeth Coetiroedd i Gymru |
|---|---|---|---|---|
| 1. Coetiroedd a choed | Coetiroedd yng Nghymru, plannu coed newydd, nifer y coed y tu allan i goetiroedd a chyfanswm hyd gwrychoedd | Cynyddu | Cynnydd yn arwynebedd y coetir<br>Plannu llai o goed newydd | 4. Bod arwynebedd coetiroedd yng Nghymru yn cynyddu |
| 2. Arallgyfeirio coetiroedd | Amrywiaeth coetiroedd ar raddfa dalgylchoedd, ac ar raddfa lai. | Cynyddu | I'w ddiweddaru | 2.<br>Bod ecosystem coetiroedd yn iach ac yn gryf |
| 3. Rheoli coetiroedd yn gynaliadwy | Coetiroedd sy'n cael eu rheoli i Safon Coedwigoedd y DU | Cynyddu | Cynyddu | 1.<br>Bod mwy o goetiroedd a choed yn cael eu rheoli'n gynaliadwy |
| 4. System reoli | Coetiroedd yng Nghymru yn cael eu rheoli heb lwyrgwympo | Cynyddu | Gostyngiad | 3.<br>Bod coetiroedd yn cael eu haddasu'n well i ddarparu ystod lawn o fanteision |
| 5. Coetiroedd fferm | Coetiroedd fferm o fewn cynllun grant<br>Cynaeafu pren a choed tân o goetiroedd fferm | Cynyddu | Gostyngiad ar y cyfan, ond cynnydd yn y coetiroedd fferm yng nghynllun grant Glastir ers ei gyflwyno | 5.<br>Bod rheoli coetiroedd a choed yn cael ei gysylltu'n agosach â dulliau eraill o ddefnyddio tir |
| 6. Coetiroedd a choed trefol | Brigdwf mewn ardaloedd trefol | Cynyddu | Sefydlog | 6.<br>Bod coetiroedd a choed trefol yn darparu ystod lawn o fanteision<br><br>8.<br>Bod mwy o gymunedau yn elwa ar goetiroedd a choed |
| 7. Cydbwysedd carbon | Gostwng carbon o stociau biomas a chynhyrchion pren, ac amnewid cynhyrchion a thanwydd | Cynyddu stociau carbon a gostwng carbon | Cynnydd a ragwelir | 7.<br>Bod coetiroedd Cymru yn cyfrannu at leihau ôl troed carbon Cymru |

| Dangosydd | Disgrifiad | Tuedd Ddymunol | Tuedd Wirioneddol | Canlyniadau cysylltiedig yn y strategaeth Coetiroedd i Gymru |
|---|---|---|---|---|
| 8. Iechyd coed | Hyd a lled clefydau a difrod yng Nghymru | Sefydlog | Cynnydd | 2. Bod ecosystem coetiroedd yn iach ac yn gryf |
| 9. Manteision lleol coetiroedd | Canfyddiadau'r cyhoedd o fanteision lleol coetiroedd | Cynyddu | Sefydlog – 97% yn enwi o leiaf un fantais coetiroedd, 47% yn enwi o leiaf un anfantais | 8. Bod mwy o gymunedau yn elwa ar goetiroedd a choed |
| 10. Cynnwys cymunedau | Nifer y bobl sy'n gysylltiedig â choetiroedd | Cynyddu | Cynnydd | 8. Bod mwy o gymunedau yn elwa ar goetiroedd a choed<br>9. Bod mwy o bobl yn mwynhau'r manteision dysgu gydol oes sy'n gysylltiedig â choetiroedd a'u cynhyrchion |
| 11. Hamdden | Cyfran y boblogaeth sy'n defnyddio coetiroedd ar gyfer gweithgareddau hamdden goddefol ac egnïol | Cynyddu | Cynyddu | 10. Bod mwy o bobl yn byw bywyd iachach yn sgil defnyddio a mwynhau coetiroedd |
| 12. Hygyrchedd | Cyfran y bobl â choetir hygyrch sy'n agos i'w cartrefi | Cynyddu | Cynyddu | 8. Bod mwy o gymunedau yn elwa ar goetiroedd a choed<br>10. Bod mwy o bobl yn byw bywyd iachach yn sgil defnyddio a mwynhau coetiroedd |

| Dangosydd | Disgrifiad | Tuedd Ddymunol | Tuedd Wirioneddol | Canlyniadau cysylltiedig yn y strategaeth Coetiroedd i Gymru |
|---|---|---|---|---|
| 13. Mentrau lleol | Nifer yr unedau busnes sy'n defnyddio coetiroedd<br>Nifer y gweithwyr cyflogedig yn y sector coedwigaeth | Cynyddu | Nifer sefydlog o unedau busnes, nifer y gweithwyr cyflogedig yn newid | 11.<br>Bod mwy o bobl yn elwa ar fentrau cysylltiedig â choetiroedd<br><br>13.<br>Bod y sector coedwigaeth wedi cael ei integreiddio'n well a'i fod yn fwy cystadleuol, gan gefnogi economi Cymru |
| 14. Defnydd o bren Cymru | Cyfran y pren sydd ar gael sy'n cael ei gynaeafu a'i brosesu yng Nghymru | Cynyddu | Cymhareb cynaeafu/ argaeledd yn newid, gostyngiad yng nghanran y boncyffion o Gymru a brosesir yng Nghymru | 12.<br>Bod mwy o bren Cymru yn cael ei ddefnyddio yng Nghymru<br><br>7.<br>Bod coetiroedd Cymru yn cyfrannu at leihau ôl troed carbon Cymru |
| 15. Gwerth y sector coedwigaeth | Gwerth y sector coedwigaeth i economi Cymru | Cynyddu | Cynyddu | 13.<br>Bod y sector coedwigaeth wedi cael ei integreiddio'n well a'i fod yn fwy cystadleuol, gan gefnogi economi Cymru<br><br>8.<br>Bod mwy o bobl yn elwa ar fentrau cysylltiedig â choetiroedd |

| Dangosydd | Disgrifiad | Tuedd Ddymunol | Tuedd Wirioneddol | Canlyniadau cysylltiedig yn y strategaeth Coetiroedd i Gymru |
|---|---|---|---|---|
| 16. Y galw am bren | Y galw am gynhyrchion pren a'r defnydd o bren yng Nghymru, gan gynnwys y galw am bren ardystiedig | Cynyddu | Y defnydd ledled y DU yn newid. Dim gwybodaeth ar gael ar gyfer Cymru | 14. Bod defnydd cynyddol o bren fel adnodd adnewyddadwy allweddol<br><br>1. Bod mwy o goetiroedd a choed yn cael eu rheoli'n gynaliadwy |
| 17. Iechyd busnesau yn y sector coedwigaeth | Iechyd busnesau yn y sector coedwigaeth, gan gynnwys sgiliau | Gwella | Dangosydd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd | 13. Bod y sector coedwigaeth wedi cael ei integreiddio'n well a'i fod yn fwy cystadleuol, gan gefnogi economi Cymru<br>15. Gweithlu medrus a ffyniannus yn y sector coedwigaeth |
| 18. Cynefinoedd coetiroedd a choed hynafol | Arwynebedd a chyflwr coetiroedd brodorol, a choetiroedd ar safleoedd dynodedig neu hynafol, a nifer y coed hynafol | Gwella | Sefydlog | 17. Bod coetiroedd a choed o werth cadwraeth arbennig yn cael eu rheoli'n ffafriol<br>18. Bod bioamrywiaeth coetiroedd yn cael ei chefnogi a bod coetiroedd brodorol yn cael eu rheoli'n ffafriol<br><br>16. Bod coetiroedd yn cael eu rheoli yn unol â safonau uchel o stiwardiaeth amgylcheddol |

| Dangosydd | Disgrifiad | Tuedd Ddymunol | Tuedd Wirioneddol | Canlyniadau cysylltiedig yn y strategaeth Coetiroedd i Gymru |
|---|---|---|---|---|
| 19. Rhywogaethau coetiroedd | Statws rhywogaethau coetiroedd â blaenoriaeth | Gwella | Sefydlog | 18. Bod bioamrywiaeth coetiroedd yn cael ei chefnogi a bod coetiroedd brodorol yn cael eu rheoli'n ffafriol |
| 20. Cysylltiadau | Arwynebedd a math o goetiroedd mewn ardaloedd coetiroedd allweddol | Cynyddu | Dangosydd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd | 18. Bod bioamrywiaeth coetiroedd yn cael ei chefnogi a bod coetiroedd brodorol yn cael eu rheoli'n ffafriol |
| 21. Coetiroedd yn rhoi pwysau ar ddŵr | Arwynebedd coetiroedd sy’n rhoi pwysau ar faint o ddŵr sydd ar gael, neu ansawdd y dŵr | Gostwng | Dangosydd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd | 20. Bod coetiroedd a choed newydd a rhai sy’n bodoli’n barod yn cyfrannu at reoli dŵr a phridd |
| 22. Coetiroedd fel ateb wrth reoli dŵr | Coetiroedd sy’n cyfrannu at wella faint o ddŵr sydd ar gael, neu wella ansawdd y dŵr | Cynyddu | Dangosydd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd | 20. Bod coetiroedd a choed newydd a rhai sy’n bodoli’n barod yn cyfrannu at reoli dŵr a phridd |
| 23. Treftadaeth a thirwedd | Addasrwydd esthetig coetiroedd mewn ardaloedd lle mae’n rhan bwysig o gymeriad y dirwedd | Gwella | Llinell sylfaen wedi'i sefydlu | 19. Bod coetiroedd a choed yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad tirwedd arbennig Cymru ac at safleoedd sy’n bwysig o safbwynt treftadaeth a diwylliant |



# Gwybodaeth allweddol am ansawdd

Caiff Ystadegau Swyddogol eu llunio yn unol â safonau proffesiynol uchel y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Maent yn destun adolygiadau sicrhau ansawdd rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion cwsmeriaid. Nid ydynt yn cynnwys unrhyw gyfeiriadau gwleidyddol.

## Defnyddwyr a Defnyddiau

Mae Dangosyddion Coetiroedd i Gymru yn bwysig er mwyn monitro cynnydd y Cynllun Gweithredu Coetiroedd i Gymru, a chyflwr coedwigaeth Cymru yn gyffredinol. Mae rhai o'r defnyddiau'n cynnwys:

- Monitro cynnydd tuag at dargedau
- Datblygu polisi
- Cyngor i Weinidogion
- Llywio trafodaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a sefydliadau eraill
- Proffilio, cymharu a meincnodi daearyddol.

Mae amrywiaeth o ddefnyddwyr yn defnyddio'r ystadegau hyn, gan gynnwys llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol, y rhai sy'n ymwneud â'r sector coedwigaeth, ymchwilwyr, myfyrwyr a dinasyddion unigol.

## Ansawdd y Data

Mae'n bosibl bod unrhyw ddata hanesyddol a nodir yn yr adroddiad hwn wedi'u diweddaru neu eu cywiro ers cyhoeddi adroddiadau blaenorol. O ganlyniad, dylid gwneud unrhyw gymariaethau hanesyddol ar sail y data yn yr adroddiad hwn lle bo hynny'n bosibl.

Mewn tablau lle mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu, mae'n bosibl na fydd swm y ffigurau unigol yn cyfateb i'r cyfanswm a ddangosir.

## Ffynonellau Data a Chwmpas

Mae data yn yr adroddiad hwn yn dod o amrywiaeth o ffynonellau. Mae llawer o'r data yn cael eu cyhoeddi mewn cyhoeddiadau eraill. Nodir y ffynonellau isod, ynghyd â dolenni ar gyfer rhagor o wybodaeth neu ddata:

- Ystadegau Coedwigaeth
  **www.forestry.gov.uk/forestry/infd-7aqdgc**
- Y Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed
  **http://www.forestry.gov.uk/pdf/niwaleswelsh.pdf/$FILE/niwaleswelsh.pdf**
- Arolwg Cefn Gwlad
  **www.countrysidesurvey.org.uk/**
- Arolwg Ffermwyr Comisiwn Coedwigaeth Cymru
- Astudiaeth Adnoddau Coedwigaeth
- Rhestr Coed Trefol Cymru, ar gael fel data daearyddol ar borwr map y Comisiwn Coedwigaeth
  **https://www.forestergis.com/Apps/MapBrowser/**
- Arolygon Barn y Cyhoedd ar Goedwigaeth
  **www.forestry.gov.uk/forestry/infd-5zyl9w**
- Ymchwil Coedwig
  **www.forestry.gov.uk/forestresearch**

- Arolwg Comisiwn Coedwigaeth Cymru o Grwpiau Coetir Cymunedol yng Nghymru
- Adroddiadau prosiect Cydcoed
  www.forestry.gov.uk/fr/cydcoed
- Rhestr Goedwig Genedlaetho
  www.forestry.gov.uk/inventory
- Data dosbarthu'r Swyddfa Ystadegau Gwladol
  www.ons.gov.uk/ons/cymraeg/index.html
- Ymddiriedolaeth Adareg Prydain
  https://www.bto.org/
- Cofrestr o Fusnesau ac Arolwg Cyflogaeth
  http://www.ons.gov.uk/ons/about-ons/get-involved/taking-part-in-a-survey/information-for-businesses/a-to-z-of-business-surveys/business-register-and-employment-survey--bres-/index.html
- Arolwg Poblogaeth Blynyddol
  http://data.gov.uk/dataset/annual_population_survey_for_wales
- Arolwg Busnes Blynyddol
  http://data.gov.uk/dataset/annual_business_survey
- Arolwg Comisiwn Coedwigaeth Cymru o Fentrau Coetiroedd
- Landmap
  http://lle.gov.wales/catalogue/item/LandmapVisualSensory/?lang=cy
- Gwasanaeth Cynghori a Diagnosis Iechyd Coed
  www.forestresearch.gov.uk/services/tree-health-diagnostic-and-advisory-service/
- Llais y Goedwig
  http://llaisygoedwig.org.uk/
- Rhagolygon o allyriadau a daliadau o'r sector LULCF hyd at 2050
  http://naei.defra.gov.uk/reports/index

## Ystadegau cysylltiedig ar gyfer gwledydd eraill y DU

Cyhoeddir dangosyddion y DU yn 'UK indicators of Sustainable Forestry', sydd ar gael
www.gov.uk/government/organisations/forestry-commission

Mae Dangosyddion Perfformiad Cynlluniau Corfforaethol y Comisiwn Coedwigaeth a'r prif adroddiadau ar berfformiad ar gael ar
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/779519/FCE_Headline_Performance_Indicators_31Dec18.pdf

Mae dangosyddion ar gyfer Strategaeth Bioamrywiaeth Lloegr yn cynnwys gwybodaeth am goetiroedd ac maent ar gael o'r wefan GOV.uk

Mae dangosyddion cynnydd Strategaeth Coedwigaeth yr Alban ar gael ar wefan Comisiwn Coedwigaeth yr Alban.
https://scotland.forestry.gov.uk/



# Geirfa

**Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA):** Rhwydwaith o safleoedd gwarchodedig ledled yr Undeb Ewropeaidd

**Ardal cwympo coed:** Torri ardal o goetir (os yw'r ardal o fewn coetir mwy, mae'n ardal gwympo coed dros 0.25 hectar fel arfer). Weithiau, gall clystyrau o goed gwasgaredig barhau i sefyll mewn ardal cwympo coed

**Arwynebedd coetir:** Cyfanswm y coetir, a fynegir o bosibl fel arwynebedd, neu fel cyfran yr holl dir mewn gwlad neu ardal arall

**Asiantaeth yr Amgylchedd (EA):** Corff llywodraeth anadrannol sy'n ceisio gwarchod yr amgylchedd a hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Ers mis Ebrill 2013, mae swyddogaethau'r Asiantaeth yng Nghymru wedi'u trosglwyddo i gorff newydd, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) Brigdwf: Cyfran ardal a orchuddir gan ganopïau coed

**Clawdd creiriol:** Llinell o goed a oedd yn arfer ffurfio clawdd ond nad yw'n ffurfio ffin gyflawn bellach

**Clefyd coed ynn (chalara):** ffwng sydd wedi difa coed ynn yn Ewrop dros y 30 mlynedd diwethaf

**Coed yn cwympo oherwydd y gwynt:** Coed yn cwympo neu'n torri oherwydd y gwynt

**Coedwigoedd:** Ardaloedd mawr o dir sydd wedi'u gorchuddio â choed gan amlaf

**Coetir:** Tir sydd wedi'i orchuddio â choed yn bennaf. Mae'r Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol (yn y DU) yn diffinio coetir fel tir lle byddai'r coed aeddfed yn gorchuddio mwy nag 20% o'r arwynebedd

**Coetir brodorol:** Coed sy'n cynnwys rhywogaethau brodorol lleol yn bennaf neu'n gyfan gwbl

**Coetir Hynafol:** Safleoedd sydd wedi'u gorchuddio â choed yn ddi-dor ers cyn 1600 AD

**Coetir Hynafol a Lled-Naturiol (ASNW):** Coetir hynafol lle mae'r coed a'r llwyni yn lled-naturiol. Dyma'r coetiroedd pwysicaf o safbwynt bioamrywiaeth fel arfer

**Coetir lled-naturiol:** Nid oes unrhyw goedwigoedd gwirioneddol 'naturiol' ar ôl yn y DU. Gan amlaf, mae coetiroedd lled-naturiol yn cynnwys coed a llwyn sy'n frodorol i'r safle nad ydynt wedi'u plannu. Byddant wedi tyfu o ganlyniad i adfer naturiol fel arfer, neu yn sgil tyfiant coedlan/tocbren

**Comisiwn Coedwigaeth Cymru (CCC):** Bu'n gweithredu fel Adran Goedwigaeth Llywodraeth Cymru hyd at fis Ebrill 2013, gan reoli'r 38% o goetiroedd Cymru ar Ystâd Goed Llywodraeth Cymru. Ar ran Llywodraeth Cymru, roedd y Comisiwn yn rhoi cyngor ar ddatblygu a gweithredu polisi coedwigaeth; yn hyrwyddo prosesau rheoli coetiroedd cynaliadwy yn y sector preifat; yn gweinyddu grantiau; ac roedd yn gyfrifol am waith rheoleiddio, gan gynnwys cyhoeddi trwyddedau i gwympo ac ailblannu coed. Ers mis Ebrill 2013, mae swyddogaethau'r Comisiwn wedi'u trosglwyddo i gorff newydd, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

**Cydcoed:** Prosiect gwerth £16 miliwn a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd drwy Amcan Un, gyda'r nod o ennyn diddordeb cymunedau mewn coetiroedd lleol er mwyn cynyddu manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn lleol

**Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC):** Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn dwyn ynghyd gwaith Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru, yn ogystal â rhai o swyddogaethau Llywodraeth Cymru. Ei bwrpas yw sicrhau y bydd adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio yn gynaliadwy yn awr ac i'r dyfodol

**Cymuned:** Grŵp o bobl sydd â rhywbeth yn gyffredin, fel lle neu ddiddordeb

**Cymysgedd cynefin:** Cymysgedd o rywogaethau coed gwahanol mewn ardal fechan

**Cynefin:** Ardal sy'n gartref i rywogaeth benodol

**Cynefin agored:** Cynefin sydd heb goed (neu sydd â nifer fach o goed) e.e. cors, rhostir a glaswelltir

**Cynefinoedd agored â blaenoriaeth:** Cynefinoedd agored sydd wedi'u nodi fel cynefinoedd dan fygythiad ac yn dod o dan Gynllun Gweithredu'r DU ar Fioamrywiaeth. Maen nhw'n cynnwys gwaun uchel, gorgors, glaswelltir sych asidig iseldir, dôl iseldir a glaswelltir calchaidd iseldir

**Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC):** Hyd at fis Ebrill 2013, CCGC oedd cynghorydd statudol y Llywodraeth ar gynnal harddwch naturiol, bywyd gwyllt a'r cyfle i fwynhau'r awyr agored yng Nghymru a'i dyfroedd mewndirol. Ers mis Ebrill 2013, mae swyddogaethau CCGC wedi'u trosglwyddo i gorff newydd, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

**Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth (BAP):** Cynllun ar gyfer cynefin neu rywogaeth allweddol sy'n nodi'r rhesymau am eu dirywiad a'r gwaith sydd angen ei wneud i'w hadfer. Cymeradwyir BAPs cenedlaethol gan y Llywodraeth ac maent yn rhan o Gynllun Gweithredu'r DU ar Fioamrywiaeth. Ysgogwyd y cynlluniau hyn yn wreiddiol gan Gonfensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol 1992

**Cynnyrch pren:** Cyfanswm y pren sy'n cael ei gynhyrchu

**Dalgylch:** Ardal o dir sy'n cynnwys system afon

**Defnydd ymddangosol:** Cyfanswm rhywbeth a ddefnyddir mewn gwlad neu ardal, sy'n cael ei gyfrifo drwy ychwanegu'r cyfanswm a gynhyrchir yn y wlad neu'r ardal honno at y cyfanswm sy'n cael ei fewnforio a thynnu'r cyfanswm sy'n cael ei allforio

**Ecosystem:** Cymunedau o blanhigion ac anifeiliaid (gan gynnwys pobl) sy'n rhyngweithio â'i gilydd ac â'r amgylchedd naturiol. Mae ecosystemau cytbwys yn sefydlog o'u hystyried dros yr hirdymor (cannoedd o flynyddoedd yn achos coetiroedd)

**Erydiad pridd:** Pridd yn cael ei erydu oherwydd prosesau naturiol fel dŵr neu'r gwynt

**Forest Research (FR):** Un o asiantaethau'r Comisiwn Coedwigaeth sy'n darparu gwasanaethau ymchwil, datblygu a monitro er mwyn cynorthwyo coedwigaeth yn y DU, y Comisiwn Coedwigaeth, Cyfoeth Naturiol Cymru a pholisïau Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig

**Glannau afon:** Yr ardal o gwmpas ymyl afon, nant neu ardal arall o ddŵr croyw

**Glastir:** Cynllun rheoli tir cynaliadwy yng Nghymru sydd wedi disodli nifer o gynlluniau amaeth-amgylcheddol blaenorol

**Gwasanaethau ecosystemau:** Manteision i bobl sy'n deillio o adnoddau a phrosesau ecosystemau naturiol. Mae llawer o astudiaethau wedi ceisio mesur gwerth economaidd y gwasanaethau hyn, sy'n cynnwys:

- gwasanaethau darparu, fel bwyd, dŵr a choed
- gwasanaethau diwylliannol, fel manteision hamdden, iechyd ac esthetig
- gwasanaethau rheoleiddio, fel darparu lloches, cysgod a systemau oeri mewn trefi, a lleiniau cysgodi ar dir fferm
- gwasanaethau cymorth, fel dal a storio carbon (cloi carbon atmosfferig), ffurfio pridd a ffotosynthesis.

Gwerth Ychwanegol Gros (GVA): Y dull cydnabyddedig cyfredol o asesu'r economi, a'r gyfran y mae diwydiannau gwahanol yn ei chyfrannu tuag ati

**Gwyfyn Ymdeithiwr y Derw:** Gwyfynnod sy'n bla ar goed derw, ac yn berygl i iechyd pobl ac anifeiliaid

**Hamdden egnïol:** Hamdden sy'n gysylltiedig â gweithgaredd sy'n cynyddu cyfradd curiad calon y sawl sy'n cymryd rhan, neu'n gwneud iddo/iddi chwysu. Mae enghreifftiau'n cynnwys beicio mynydd neu redeg ar hyd llwybrau

**Hamdden goddefol:** Hamdden nad yw'n gysylltiedig â gweithgaredd sy'n cynyddu cyfradd curiad calon y sawl sy'n cymryd rhan, neu'n gwneud iddo/iddi chwysu. Mae enghreifftiau'n cynnwys gwylio adar neu gael picnic

**Ips typographus:** Chwilen rhisgl sbriws 8 dant sy'n fygythiad arbennig i goed sbriws

**i-Tree Eco:** Rhaglen feddalwedd i fesur strwythur ac effeithiau amgylcheddol coed trefol a chyfrifo eu gwerth i gymdeithas

**LANDMAP:** Adnodd GIS Cymru gyfan lle mae nodweddion tirweddau, eu priodweddau a'r hyn sy'n cael dylanwad arnynt yn cael eu cofnodi a'u gwrethuso mewn set ddata genedlaethol gyson

**Land Use, Land-Use Change and Forestry (LULUCF):** Fe'i diffinnir gan Ysgrifenyddiaeth Newid Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig fel "greenhouse gas inventory sector that covers emissions and removals of greenhouse gases resulting from direct human-induced land use such as settlements and commercial uses, land-use change, and forestry activities"

**Llais y Goedwig:** Ei nod yw cynrychioli a chefnogi ymarferwyr a grwpiau cymunedau coetiroedd ledled Cymru

**Lleihau carbon:** Lleihau faint o garbon sy'n cael ei ychwanegu i'r atmosffer

**Llygredd gwasgaredig:** Llygredd sy'n deillio o fwy nag un ffynhonnell

**Nodwedd linellol goediog:** Llinell o goed, llai na 5m o led, gyda bylchau hyd at 20m a hyd o 20m o leiaf

**Ôl troed carbon:** Darlun o effaith gweithgareddau pobl o safbwynt cyfanswm net y nwyon tŷ gwydr a gynhyrchir, gan gynnwys carbon a methan, wedi'i fynegi fel arfer fel tunelli o garbon ar ffurf gyfwerth â CO2

**Parthau rhwydwaith:** Mewn rhwydwaith cynefin coetir, mae coed wedi'u cysylltu'n ddigonol i weithredu gyda'i gilydd, gydag unigolion yn mynd a dod rhwng coetiroedd

**Phytophthora ramorum:** Organeb ffwngaidd sy'n achosi marwolaeth pob math o goed a llwyni

**Planhigfeydd ar Safleoedd Coetiroedd Hynafol (PAWS):** Hen Goetir Hynafol a Lled-naturiol (ASNW) sydd fwy neu lai wedi'i ailblannu'n gyfan gwbl gyda rhywogaethau brodorol neu anfrodorol, gan ddiraddio'r gwerth ecolegol. Mae'r graddau y mae bioamrywiaeth yn cael ei cholli yn amrywio'n fawr ar sail y rhywogaethau a blannwyd a'r broses o'u rheoli wedyn

**Pren caled:** Coed sy'n dod o goed llydanddail

**Pren meddal:** Coed sy'n dod o gonwydd

**Prosesydd pren eilaidd:** Busnes sy'n defnyddio cynnyrch pren i greu cynnyrch o fath gwahanol

**Prosesydd pren sylfaenol:** Busnes sy'n cymryd y cam cyntaf yn y broses o droi coed yn gynhyrchion

**Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed (NIWT):** Arolwg o goetiroedd a gynhaliwyd yn ystod degawd olaf yr ugeinfed ganrif; 1997 yw'r flwyddyn gyfeirio ar gyfer yr arolwg hwn fel arfer. Yr arolwg hwn oedd rhagflaenydd y Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol

**Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol (NFI):** Olynydd y Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed; arolwg cenedlaethol dreigl sy'n nodi coetiroedd; perchnogion coetiroedd; a choetiroedd yn ôl y math o goedwigoedd. Cesglir amrywiaeth eang o wybodaeth, gan gynnwys rhywogaethau, oed a dwysedd y stoc goed

**Rhywogaethau â blaenoriaeth:** Rhywogaethau sydd wedi'u nodi fel rhywogaethau dan fygythiad sy'n dod o dan Gynllun Gweithredu'r DU ar Fioamrywiaeth. Mae rhywogaethau â blaenoriaeth sy'n byw yng nghoetiroedd Cymru yn cynnwys y wybodeg frith, telor y coed, y rugiar ddu, goch y berllan, y wiwer goch, y pathew a sawl rhywogaeth o ystlumod

**Rhywogaeth blaenoriaeth uchel:** Rhywogaethau sydd wedi'u nodi fel y rhai sy'n wynebu'r bygythiad mwyaf ac sydd angen eu gwarchod o dan Gynllun Gweithredu'r DU ar Fioamrywiaeth

**Rhywogaeth gynhenid:** Rhywogaeth a gyrhaeddodd yng Nghymru heb gymorth pobl yn ystod coloneiddio ôl-rewlifol

**Safle tir llwyd:** Tir a ddefnyddiwyd ar gyfer diwydiant, adeiladau ac ati yn y gorffennol ond nad yw'n cael ei ddefnyddio at y diben hwnnw bellach

**Safon Coedwigaeth y DU (UKFS):** Dull llywodraeth y DU o reoli coedwigaeth gynaliadwy. Mae'n pennu'r meini prawf a'r safonau ar gyfer rheoli holl goedwigoedd a choetiroedd y DU mewn ffordd gynaliadwy

**Stociau carbon:** Carbon sy'n cael ei storio, fel y carbon sydd wedi'i gloi mewn coed neu gynhyrchion coed

**Y Comisiwn Coedwigaeth (FC):** Adran y llywodraeth sy'n gyfrifol am warchod ac ehangu coedwigoedd a choetiroedd yn Lloegr a'r Alban

**Ystad Goed Llywodraeth Cymru (WGWE):** Coetiroedd a reolir gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar ran Llywodraeth Cymru, sef 38% o goetiroedd Cymru

## Cysylltiadau

Scott Dewis – Arweinydd cyhoeddi
Rachel Shepherd – Ystadegydd

**Ar gyfer ymholiadau post:**

Y Gangen Polisi Coedwigaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Ymholiadau gan y wasg: 0300 025 8099
Ymholiadau cyhoeddus: 0300 025 5050
Twitter: @statisticswales